# Templed Cynllun Rheoli Achlysuron a Nodiadau Canllaw

Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Achlysuron Rhondda Cynon Taf

RHONDDA CYNON TAF

# CYFLWYNIAD

Mae'r templed yma'n darparu canllawiau ar gyfer trefnwyr achlysuron a bydd yn eich helpu i ddatblygu cynllun rheoli achlysuron manwl. Dylid ei ystyried fel enghraifft yn unig ac os caiff ei ddefnyddio rhaid ei addasu i gyd-fynd â'ch achlysur. Hefyd, gall fod digwyddiadau lle mae angen mesurau a/neu wybodaeth ychwanegol. Bydd y rhain cael eu hesbonio ar adeg y cais; er enghraifft, Asesiad Risg COVID. Dangosir rhagor o ffynonellau o arweiniad yn Atodiad 1.

Mae achlysur yn weithgaredd sy'n digwydd ar amser penodol ac sy'n galluogi pobl i ddod at ei gilydd. Efallai y byddan nhw'n dod at ei gilydd i ddathlu, rhannu cariad at gerddoriaeth, chwaraeon, heriau, codi arian yn y gymuned neu ar gyfer adloniant fel cyngerdd yn unig. Gallai hyn gynnwys er enghraifft: ffeiriau, cyngherddau awyr agored ac achlysuron cerddorol, sioeau masnach, achlysuron chwaraeon, sioeau ceffylau, sioeau amaethyddol, sioeau cŵn, adloniant awyr agored fel theatr, opera neu ail berfformiadau hanesyddol, arddangosfeydd tân gwyllt, partïon cwmni ar raddfa fawr, gorymdeithiau a charnifalau, partïon stryd, achlysuron crefyddol; enghreifftiau yn unig yw'r rhain, mae llawer o rai eraill.

Efallai y bydd yr achlysur am ddim neu efallai y bydd angen i chi brynu tocynnau, talu tâl mynediad neu dalu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gallai fod yn agored i'r cyhoedd neu drwy wahoddiad yn unig - mae hyn yn dibynnu ar ystod enfawr o ffactorau ond yn bennaf mae'n dibynnu ar amcanion yr achlysur. Er enghraifft, gallai'r amcanion fod yn gysylltiedig â gwneud elw neu gallen nhw fod yn gysylltiedig ag amcanion cymdeithasol a chymunedol y gwesteiwr.

Beth bynnag fo maint eich achlysur, mae angen meddwl trwy bob elfen ohono o flaen llaw er mwyn ei gynnal yn llwyddiannus.

I ddefnyddio'r templed, cadwch fersiwn newydd a llenwch yr adrannau sy'n berthnasol i'ch achlysur chi. Ni fydd pob adran yn berthnasol i bob achlysur - bydd angen i chi benderfynu pa rai sy'n berthnasol. Ar ôl i chi gwblhau'r templed, fe gewch chi ddileu'r canllawiau.

Efallai byddwch chi'n gweld y Canllawiau Porffor Fforwm y Diwydiant Achlysuron yn ddefnyddiol. Maen nhw'n rhoi canllawiau ar ddiogelwch, cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr, cymorth cyntaf, diogelwch trydanol, cyfathrebu mewn achlysuron, plant coll, cyfleusterau glanweithdra a mwy.

Dylid paratoi ar gyfer bob achlysur, boed yn fawr neu'n fach, trwy gynnal asesiad risg manwl i nodi unrhyw faterion a allai roi pobl sy'n mynychu'r safle mewn unrhyw berygl.
Dylai'r asesiad risg yma gael ei gynnal gan berson cymwys a rhaid iddo ystyried y ffactorau sy'n ofynnol o dan reoliadau iechyd a diogelwch a rheoliadau tân yn ogystal â materion sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Dylai hefyd nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r holl risgiau a nodir.

Nid yw asesiad risg yn ymwneud â chreu llawer iawn o waith papur, ond yn hytrach mae'n ymwneud â nodi mesurau synhwyrol i reoli'r risgiau. Does dim rhaid ysgrifennu cynllun ar bapur yn rhan o’u hasesiad risg yn ôl y gyfraith os oes llai na

phump o weithwyr yn ymwneud â'r achlysur neu os mai pobl hunangyflogedig yn unig sy'n gyfrifol am yr achlysur, ond mae bob amser yn ddoeth gwneud hynny er mwyn gallu dangos bod yr holl risgiau wedi'u hystyried pe bai unrhyw beth yn mynd o'i le. Bydd angen  Asesiad Risg ar gyfer eich achlysur, a dylai'r manylion fod yn gymesur â'r achlysur sy'n cael ei gynnal; mae enghraifft i'w gweld yn Atodiad 2. Dylid trin Asesiadau Risg bob amser fel dogfennau byw y mae angen cyfeirio atyn nhw a'u diweddaru/newid wrth i ddigwyddiadau ddatblygu.

Mae'n bwysig mai un o'ch gweithredoedd cyntaf yw dewis lleoliad(au) a chael caniatâd (hyd yn oed os mewn egwyddor) i ddefnyddio'r lleoliad hwnnw ar gyfer eich achlysur.

Mae'r canllawiau yma wedi'u datblygu gan Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Achlysuron Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn grŵp aml-asiantaeth sy'n cynnwys partneriaid allweddol o sefydliadau fel y Cyngor a'r Gwasanaethau Brys ac mae'n bwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sy'n trefnu achlysur. Cyfrifoldeb trefnydd yr achlysur yw rheoli risg a diogelwch y cyhoedd ond mae profiad wedi dangos bod modd i ymgynghori cynnar â gweithwyr proffesiynol gynyddu diogelwch yn sylweddol a cyflymu'r broses gynllunio. Mae'r Grŵp Ymgynghori yn rhoi cyngor annibynnol i drefnwyr achlysuron, sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am sicrhau bod eu hachlysur yn ddiogel.

Nid oes gan y Grŵp Ymgynghori bwerau i atal achlysur rhag cael ei gynnal ond gall wneud argymhellion i wella diogelwch a threfniadau rheoli'r achlysur. Serch hynny, nodwch y gallai fod gan gynrychiolwyr unigol sefydliadau sy'n ffurfio'r grŵp bwerau i'w gwneud hi'n ofynnol i drefnwyr achlysuron gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol  (e.e., yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd yr Amgylchedd (Iechyd a Diogelwch) ac ati).

Nod y Grŵp Ymgynghori yw croesawu ac annog achlysuron i Rondda Cynon Taf, gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnal mewn modd diogel a chyfreithlon. Drwy ymgynghori a chydweithio rhwng y Cyngor a'i bartneriaid, ei nod yw safoni'r ymagwedd at yr holl achlysuron a drefnir sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cael eu cynnal mewn man cyhoeddus, ar briffordd gyhoeddus neu ar dir preifat o fewn ffiniau'r Cyngor.

Un o'r rolau pwysig y gall y Grŵp Ymgynghori ei chyflawni yw dod â'r holl bartneriaid perthnasol a phartïon gyda'i gilydd i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr achlysur mewn ffordd gydlynol.

Bydd aelodau'n ystyried rhai meini prawf gan gynnwys:

- Y nifer y bobl sy'n debygol o fod yn bresennol yn yr achlysur;
- Yr effaith ar y gymuned leol, er enghraifft sŵn neu aflonyddwch traffig sylweddol;
- Lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r achlysur. Gallai hyn fod oherwydd hanes blaenorol yr achlysur neu natur yr achlysur;
- Digwyddiadau anarferol;
- Gofynion cyfreithiol er enghraifft trwyddedau neu os oes angen cau ffyrdd.

Trefnydd yr achlysur sy'n gyfrifol am reoli'r achlysur a sicrhau ei fod yn ddiogel ac felly mae angen i'r Grŵp Ymgynghori weithio'n agos gyda charfan rheoli'r trefnydd. Mae aelodau'r Grŵp Ymgynghori yn debygol o fod â gwybodaeth dda am amrywiaeth o faterion lleol a gall trefnwyr achlysuron elwa o'r fath fewnwelediad.

Mae modd i'r Grŵp Ymgynghori:

- Hyrwyddo lefelau uchel o ddiogelwch a llesiant mewn achlysuron trwy roi cyngor ac arweiniad. (Mae hyrwyddo achlysuron mwy diogel yn cyfrannu at gymunedau cydnerth a mwy diogel);
- Rhoi cyngor ar sut i leihau unrhyw effaith andwyol neu anghyfleustra i breswylwyr, busnesau a'r cyhoedd;
- Annog llesiant, iechyd a lles y gymuned;
- Canolbwyntio adnoddau gan ddefnyddio asesiad risg a hwyluso cyngor cymesur a rheoleiddio;
- Galluogi cynllunio effeithiol i hwyluso monitro ac arolygu llai dwys;
- Cefnogi busnesau a threfnwyr trwy gael un pwynt cyswllt ar gyfer yr achlysur a chyngor ac arweiniad proffesiynol cyson;
- Cynyddu cyhoeddusrwydd da ac annog mwy o fusnes ac ymwelwyr ymgysylltu drwy ddigwyddiadau mwy diogel;
- Rhannu arfer da.

Yn ogystal, gobeithiwn bydd modd i'r Grŵp Ymgynghori helpu i roi rhywfaint o sicrwydd i sefydliadau sydd â phrofiad cyfyngedig o reoli achlysuron eu bod nhw ar y trywydd iawn. Serch hynny, mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol am sicrhau bod achlysur yn cael ei redeg yn unol â gofynion cyfreithiol yn parhau gyda threfnydd y digwyddiad.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. Bydd yr wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen yma yn cael ei defnyddio at ddiben Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Achlysuron Rhondda Cynon Taf yn unig a/neu ar gyfer gofynion archebu cyfleusterau'r Cyngor. Er mwyn dysgu rhagor am sut rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol, ewch i dudalennau Diogelu Data'r Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata .

Mae cyflwyno cynlluniau a dogfennau eraill sy'n ymwneud ag achlysuron yn amserol yn galluogi aelodau'r Grŵp Ymgynghori i ystyried a chynnig sylwadau ar y cynnwys gan ddefnyddio dull archwilio. Mewn rhai achosion, bydd aelodau'r Grŵp Ymgynghori yn ystyried ei bod hi'n briodol tynnu sylw at unrhyw ddiffygion neu hepgoriadau posibl, yn enwedig pan fydden nhw'n ystyried bod angen gweithredu brys neu wella trefniadau. Y nod yw rhoi adborth i drefnwyr ar gynigion achlysuron yn gynnar fel bod digon o amser ar ôl i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd pryder sylweddol a godwyd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r dyddiadau y mae angen gwybodaeth, does dim modd newid y rhan fwyaf o ddyddiadau (er enghraifft  trwyddedu neu briffyrdd), efallai y bydd rhai'n cael eu lleihau trwy gytundeb ar gyfer achlysuron llai.

| GOFYNION GWAITH PAPUR | DYDDIAD DYMUNOL | DYDDIAD OLAF |
|---|---|---|
| Yr heddlu | 180 diwrnod | 56 diwrnod |
| Y Gwasanaeth Tân | 56 diwrnod | Dyddiad yr achlysur: |
| Iechyd | 90 diwrnod | 30 diwrnod |
| Trwyddedu<br><br>(Hysbysiad Achlysur Dros Dro) | 180 diwrnod | 56 diwrnod<br><br>10 Diwrnod gwaith clir (heb gynnwys diwrnod cyflwyno, diwrnod yr achlysur, gwyliau'r banc neu benwythnosau) |
| Priffyrdd | 90 diwrnod | 56 diwrnod |
| Bwyd | 28 diwrnod | 14 diwrnod |
| Sŵn | 60 diwrnod | 14 diwrnod |
| Trydan | 30 diwrnod | 7 diwrnod |
| Strwythurol | 60 diwrnod | 21 diwrnod |
| Iechyd yr Amgylchedd | 28 diwrnod | 14 diwrnod |

**** Sylwch mai canllaw yn unig yw'r ddogfen yma ****

**Cyfeiriadau E-bost Defnyddiol**

| | |
|---|---|
| Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Achlysuron (ESAG) | GrwpCynghoriDiogelwchAchlysuronRhCT@rctcbc.gov.uk |
| Trwyddedu | Adran.Trwyddedau@rhondda-cynon-taf.gov.uk |
| Gwasanaeth Parciau a Chefn Gwlad | Parciaucefngwlad@rctcbc.gov.uk |
| Iechyd a Diogelwch Bwyd | Bwyd.IechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk |
| Cynllunio ar gyfer Argyfyngau | CynllunioargyferArgyfwng@rctcbc.gov.uk |
| Traffig | gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk |
| Safonau Masnach | safonaumasnach@rctcbc.gov.uk |
| Arwyddion ar y Briffordd | GorfodiGofalyStrydoedd@rctcbc.gov.uk |

# Rheoli Achlysur

# TEMPLED CYNLLUN RHEOLI ACHLYSUR A CHANLLAWIAU I DDEFNYDDWYR

| | |
|---|---|
| **Enw'r Achlysur** | |
| **Lleoliad yr Achlysur** | |
| **Dyddiad yr Achlysur** | |
| **Trefnydd / Sefydliad** | |
| **Fersiwn / Dyddiad** | |

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y templed yma ac i gyflwyno eich cynllun rheoli achlysur a chais i ddefnyddio tir y Cyngor, cysylltwch â**

GrwpCynghoriDiogelwchAchlysuronRhCT@rctcbc.gov.uk

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhestr Ddosbarthu | 10 |
| Rhestr Wirio – Enghraifft | 10 |
| **Rheoli Achlysuron** | |
| Trosolwg o'r Achlysur | 11 |
| Mannau Gwylio | 11 |
| Cynllun o'r Safle | 11 |
| Asesiadau Risg | 12 |
| Asesiadau Risg – Contractwyr / Arddangoswyr | 12 |
| Iechyd a Diogelwch | 12 |
| Yswiriant | 13 |
| Amserlen y Rhaglen | 14 |
| Agor yr Achlysur | 15 |
| Amserlen | 15 |
| **Staffio** | |
| Strwythur Trefniadol | 17 |
| Staffio | 17 |
| Stiwardio | 18 |
| Diogelwch | 18 |
| **Safbwynt yr NPCC** | |
| Safbwynt yr NPCC ar Blismona Achlysuron | 20 |
| Cysylltiadau Allweddol ar gyfer Trefnu Achlysuron - Rheolwyr | 23 |
| Cysylltiadau Allweddol ar gyfer Trefnu Achlysuron - Eraill | 24 |
| **Gweithdrefnau** | |
| Gweithdrefnau mewn Argyfwng | 26 |
| Darpariaeth Cymorth Cyntaf a Meddygol | 26 |
| Diogelwch Tân yn eich Achlysur | 27 |
| Cyfathrebu | 28 |
| Hysbysiad Achlysur - Trigolion Cyfagos | 28 |
| Cyfathrebu ar Ddiwrnod yr Achlysur - mewnol | 28 |
| Cyfathrebu ar Ddiwrnod yr Achlysur - Y Cyhoedd | 28 |
| Plant coll | 29 |
| Rheoli Tyrfaoedd | 29 |

**Cyngor Cyffredinol / Penodol**

| | |
|---|---|
| Traffig, Trafnidiaeth a Pharcio | 31 |
| Cerbydau ar y Safle | 31 |
| Trwyddedu | 32 |
| Hawliau Eiddo Deallusol | 32 |
| Darparu Alcohol | 33 |
| Darparu bwyd | 34 |
| Ffeiriau Hwyl | 35 |
| Offer Chwarae Gwynt | 35 |
| Tân Gwyllt / Coelcerthi | 36 |
| Effeithiau Arbennig | 36 |
| Meysydd Gwersylla | 36 |
| Sŵn | 37 |
| Anifeiliaid mewn Achlysuron | 37 |
| Toiledau | 38 |
| Rheoli Gwastraff | 41 |
| Ailgylchu | 41 |
| Strwythurau Dros Dro | 42 |
| Trydan | 43 |
| Tywydd | 44 |

**Atodiadau**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ffynonellau Arweiniad Pellach | 47 |
| 2. | Asesiad risg enghreifftiol | 48 |
| 3. | Enghraifft o Friffio Stiward | 51 |
| 4. | Enghraifft o Restr Gwirio Archwiliad Diogelwch | 56 |
| 5. | Enghraifft o Bolisi Plant Coll a Phlant sydd wedi'u Darganfod | 65 |
| 6. | Enghraifft o Ffurflen Plentyn Coll | 68 |
| 7. | Ffurflen Plentyn sydd wedi'i Ddarganfod | 69 |
| 8. | Ffurflen Asesu Risg Meddygol | 70 |
| 9. | Enghraifft o Lythyr i Stondinwr | 74 |
| 10. | Enghraifft o Lythyr i Gontractwr | 77 |
| 11. | Da Byw (Gwartheg, Defaid, Moch, Geifr a Cheirw) mewn Achlysuron | 79 |
| 12. | Cynllunio Achlysuron ac Ystyriaethau Gwrthderfysgol | 80 |
| 13. | Polisi Gwrthderfysgaeth a Llogi Lleoliad | 82 |

## Rhestr Ddosbarthu

Ar ôl ei gyflwyno i'r Grŵp Ymgynghori bydd copïau o'r cynllun yma'n cael eu rhannu â'r asiantaethau isod. Efallai bydd y rhain angen gwybodaeth ychwanegol a / neu bydd ganddyn nhw gwestiynau am yr hyn sydd wedi'i gynnwys.

| **Sefydliad** |
|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Heddlu De Cymru |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Bydd eraill yn dibynnu ar Natur a Lleoliad yr Achlysur. |
| |

## Rhestr wirio – Enghraifft

| **Polisïau / Gweithdrefnau / Dogfennau** | **Cyfrifoldeb / Terfyn Amser** | **Cyflawn / Cynwysedig** |
|---|---|---|
| Trwyddedau – Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (HDDD)<br>Safle<br>Alcohol<br>Casglu o ymyl y stryd<br>Cerddoriaeth | | |
| Asesiad Risg -<br>Trefnydd<br>Contractwyr | | |
| Yswiriant -<br>Trefnydd<br>Contractwyr | | |
| Cynllun Stiwardio / Briffio Stiwardiaid | | |
| Cynllun Diogelwch | | |
| Ffyrdd ar gau | | |
| Cynllun Rheoli Traffig | | |
| Gweithdrefnau mewn argyfwng | | |
| Cynllun o'r Safle | | |
| Cynllun Cyfathrebu | | |
| Polisi Plant Coll | | |
| Rheoli Gwastraff | | |
| Cynllun Rheoli Tywydd Garw | | |
| Rheoli Sŵn | | |
| Cynllun Meddygol / Trefniadau Cymorth Cyntaf | | |
| | | |

# RHEOLI ACHLYSURON

**Mae'r Adrannau o'r ffurflen hon sy'n GOCH er gwybodaeth yn unig, i'ch helpu i lenwi adrannau a dylid eu dileu o'r fersiwn gorffenedig. Os oes unrhyw atebion yn amherthnasol (amherthnasol) dylid cynnwys esboniad i gefnogi'ch penderfyniad.**

## Trosolwg o'r Achlysur

| |
|---|
| Rhowch grynodeb byr (un neu ddau baragraff) o'r hyn y bydd yn digwydd yn ystod eich achlysur. Dylai hyn gynnwys disgrifiad byr o’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnal, y rheswm dros yr achlysur, dyddiadau, amseroedd a phroffil o’r bobl a fydd yn bresennol (oedran ac ati), ac ati. A yw'n ddigwyddiad y codir tâl amdano? |

## Mannau Gwylio

| |
|---|
| Rhowch wybodaeth am gapasiti eich safle, faint o ymwelwyr rydych chi'n disgwyl, a'r math o ardaloedd y bydd gan y cyhoedd fynediad atyn nhw. Rhowch fanylion sut y bydd niferoedd yn cael eu rheoli. A fydd unrhyw fannau penodol ar gyfer gwylwyr anabl? |

## Cynllun o’r Safle

| |
|---|
| Rhowch gopi o'ch cynllun o'r safle gyda'r ddogfen yma. Dylai hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) eitemau fel lleoliadau atyniadau, strwythurau dros dro, holl seilwaith y safle, ffensys neu rwystrau, generaduron, ceblau, mannau cymorth cyntaf, meysydd parcio, llwybrau cerbydau, mannau mynediad/allanfa ac allanfeydd a mannau ymgynnull brys, pwyntiau gwybodaeth, pwynt plant coll, risgiau hysbys, ac ati. Ar gyfer digwyddiadau llai gallai hyn fod yn ddiagram syml wedi'i dynnu â llaw sy'n dangos lleoliadau a mathau o atyniadau, strwythurau, rhwystrau, mynedfeydd, ac ati. |

## Asesiadau Risg

| |
|---|
| Dylid cynnal asesiad risg ar gyfer unrhyw achlysur arfaethedig, gan ystyried yr holl beryglon, natur a maint y risgiau, a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w rheoli. Pan fydd yr asesiad risg yn nodi risgiau sylweddol, rhaid i chi ddarparu gwybodaeth i bawb sy'n cael eu heffeithio ynghylch natur y risg a'r mesurau rheoli y mae'n rhaid eu rhoi ar waith. Rhowch fanylion yma.<br>Dylid cynnwys yr asesiad risg ar gyfer eich achlysur fel atodiad i'r cynllun yma, ac mae enghraifft i'w gweld yn Atodiad 2. |

## Asesiadau Risg – Contractwyr/Arddangoswyr

| |
|---|
| Gallai eich contractwyr gynnwys, er enghraifft, darparwyr llwyfan, generaduron, reid ffair hwyl, peintiwr wynebau neu berfformiwr sy'n cerdded o gwmpas y safle. Fel trefnydd y digwyddiad rydych chi'n gyfrifol am unrhyw beth rydych chi'n contractio.<br>Rhestrwch yr holl gontractwyr sy'n gysylltiedig â'ch achlysur. Bydd angen copïau o'u asesiadau risg ac yswiriant (os dydyn nhw ddim yn rhan o'ch polisi).<br>Rhestrwch yma pa rai sy'n cael eu cadw. Rhaid ichi fod yn hapus bod yr hyn y maen nhw'n ei gyflenwi yn addas ar gyfer y gweithgareddau a wneir a sicrhau y cedwir ato bob amser. |

## Iechyd a Diogelwch

Hyd yn oed os ydych chi'n sefydliad cymunedol heb unrhyw weithwyr, mae gennych chi gyfrifoldeb o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i sicrhau bod eich achlysur ac unrhyw gontractwyr sy'n rhan o'r achlysur yn gweithredu'n gyfreithlon ac yn ddiogel.

| **Swyddog Iechyd a Diogelwch / Swyddog Cyfrifol** | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad: | |
| Enw: | |
| Rhif Cyswllt: | |
| Cyfeiriad E-bost: | |
| Perthnasol profiad/cymwysterau mewn rheoli achlysuron | |

## Yswiriant

Mae'n ofynnol i Drefnwyr Achlysuron feddu ar bolisi Yswiriant cyfredol mewn perthynas ag Atebolrwydd Cyhoeddus neu Risgiau Trydydd Parti (gan gynnwys atebolrwydd o ran cynhyrchion lle bo'n briodol).
Bydd y terfyn indemniad perthnasol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Adran Yswiriant a Chyfreithiol. I gynnal digwyddiad ar eiddo'r Cyngor bydd angen i chi feddu ar ddogfen yswiriant ddilys. Mae lefel o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £10 miliwn yn ddymunol, ond bydd isafswm absoliwt o £7.5 miliwn yn dderbyniol mewn sefyllfaoedd lle mae modd cyflwyno sail resymegol. Bydd yn ofynnol i Drefnwyr yr Achlysur gyflwyno tystiolaeth o'u hyswiriant ynghyd â thystiolaeth o yswiriant unrhyw arddangoswr, band / grŵp dawns, is-gontractwr, arlwywr ac ati y maen nhw wedi'u cyfarwyddo / awdurdodi i gymryd rhan yn yr achlysur.

(Sylwer bod hyn yn ychwanegol at unrhyw Atebolrwydd Gweithiwr sydd ei angen arnoch chi).
Darparwch fanylion y Polisi yma a chopi mewn Atodiad i'r Cynllun Achlysur.
Hefyd rhestrwch fanylion holl bolisïau'r contractwyr (gwiriwch ddyddiadau a'r hyn sy'n cael ei gynnwys).

## Amserlen y Rhaglen

Mae’n arfer da rhestru popeth sydd angen ei wneud cyn, yn ystod ac ar ôl eich achlysur. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eich bod chi'n cwblhau tasgau mewn pryd ac nad yw pethau'n cael eu hanghofio.

Dylid cynnwys amserlen yn dangos camau gweithredu, amserlen ar gyfer cwblhau, swyddog cyfrifol a dull o fonitro/cofnodi bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Mae'n bwysig bod contractwyr ac arddangoswyr yn effro i'r hyn a ddisgwylir ganddyn nhw. Mae Atodiadau 9 a 10 yn gopïau o lythyrau sy'n nodi'r disgwyliadau fel enghraifft o'r hyn y mae modd ei ddarparu ymlaen llaw.

| **Amserlen XXXXXX achlysur – cyn diwrnod yr achlysur** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Tasg (Task)** | **Dechrau** | **Diwedd** | **Adnoddau / Pwy** | **Nodiadau** | **Ar Waith** | **Wedi'i gwblhau** |
| | Casglu arwyddion yr achlysur gan y llythrennwr | 10am | 12 Canol dydd | Fan + Bil a Ben | Cymryd siec i dalu | X Fan wedi archebu | Dyddiad / Amser / Wedi'i gwblhau Gan |

| **Amserlen XXXXXX achlysur – diwrnod yr achlysur** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Dechrau | Diwedd | **Adnoddau / Pwy** | **Nodiadau** | **Ar Waith** | **Wedi'i gwblhau** |
| Deiliaid stondinau yn cyrraedd y safle | 7am | 9am | Cydlynydd Stondinau Sam | Pob cerbyd oddi ar y safle erbyn 9.30 a dim rhagor o symudiadau cerbydau | Cydlynydd stondinau X wedi briffio | Amser / Wedi'i gwblhau Gan |

| **Amserlen XXXXXX achlysur – ar ôl diwrnod yr achlysur** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Tasg** | **Dechrau** | **Diwedd** | **Adnoddau / Pwy** | **Nodiadau** | **Ar Waith** | **Wedi'i gwblhau** |
| | Dychwelyd generadur | 9am | 10am | Fan a Tom | Gofalu bod ceblau yn mynd yn ôl | X | Dyddiad / Amser / Wedi'i gwblhau Gan |

## Agor yr Achlysur

Rhestrwch y camau gweithredu y mae'n rhaid eu cwblhau a'r archwiliadau a gynhelir cyn cytuno bod yr achlysur yn barod i'w agor i'r cyhoedd. Nodwch pwy sy'n gwneud y penderfyniad a sut mae hyn yn cael ei gyfleu i staff/gwirfoddolwyr/contractwyr. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Mae cyrffyw cerbydau mewn lle;
- Mae'r aelodau staff/niferoedd staff cywir yn bresennol, wedi'u briffio ac yn eu lle;
- Mae'r holl waith adeiladu wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo;
- Mae'r Rhestr Wirio Archwiliad Diogelwch wedi'i chwblhau i safon foddhaol (enghraifft Atodiad 4);
- Mae darpariaethau meddygol digonol ar waith, wedi'u halinio â'r cynllun meddygol;
- Mae contractwyr/arddangoswyr yn ddiogel ac yn barod i gychwyn;
- Mae trwydded neu HDDD i'w harddangos;
- Mae camau yn eu lle os does dim modd i'r achlysur fynd yn ei flaen.

## Amserlen

Os bydd gan eich achlysur weithgareddau yn digwydd ar wahanol adegau a lleoliadau ar draws safle'r achlysur, bydd angen i chi raglennu'ch gweithgareddau. Mae hyn yn bwysig i chi o ran stiwardio, cynlluniau cymorth cyntaf, ac ati.

Er enghraifft, efallai bod gennych chi lwyfan, ardal arena a diddanwyr sy'n cerdded o gwmpas y safle. Mae modd i chi raglenni perfformiwr yn yr arena i ddechrau'n fuan wedi i berfformiwr orffen ar y llwyfan er mwyn cynnig adloniant ar safle arall tra bod y perfformwyr ar y llwyfan yn newid drosodd.

| | Rhaglen llwyfan ac arena ar gyfer achlysur XXXXX | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser | Rhaglen y llwyfan | Rhaglen yr arena | Paentio wynebau | Sioe gŵn | Gorymdaith stryd | Llwyfan gerddoriaeth | Arall |
| 12:00 | Agor yr Achlysur | | Paentio wynebau | | | Gwiriad sain a gosod lefel sŵn | |
| 12:05 | | | | | | | |
| 12:10 | | | | | | | |
| 12:15 | Newid drosodd | Arddangosiad coginio | | | Gorymdaith stryd | | |
| 12:20 | | | | Sioe gŵn | | | |
| 12:25 | | | | | | | |
| 12:30 | Perfformiad dawns | | | | | Band 1af - XXXXX | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

# Staffio

# STAFFIO

## Strwythur Trefniadol

Bydd y strwythur trefniadol yn helpu pawb sy'n gysylltiedig â'ch achlysur i ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth. Mae hefyd yn rhan hanfodol o'ch cynlluniau ymateb mewn argyfwng. Os bydd digwyddiad, bydd eich staff a'r gwasanaethau brys angen gwybod pwy sydd â gofal.

Mae'r enghraifft isod yn strwythur syml iawn. Gwnewch yn siŵr bod strwythur eich sefydliad yn dangos y lefelau gorchymyn a sut y bydd pethau'n cael eu cyfleu i lawr y lefelau yma. Mae hyn at ddibenion dangosol yn unig, dylai'r manylder a'r cymhlethdod adlewyrchu maint, cymhlethdod a natur eich achlysur.

| Rheolwr yr Achlysur | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ↕ | | | | | |
| Y Garfan Rheoli Achlysuron | | | | | |
| ↕ | ↕ | ↕ | ↕ | ↕ | ↕ |
| Rheolwr Diogelwch | Uwch Stiward | Rheolwr y Bar | Rheolwr Llwyfan | Rheolwr Ardal y Stondinau | Ymgynghorydd Sŵn |
| ↕ | ↕ | ↕ | ↕ | ↕ | ↕ |
| Staff Diogelwch | Stiwardiaid | Staff Bar | Criw'r Llwyfan | Stondinwyr | Peiriannydd Sain |

## Staffio

Rhestrwch yr aelodau eraill o staff y bydd eu hangen arnoch chi i helpu i redeg eich achlysur, yn ogystal â'r cysylltiadau rheoli achlysur allweddol sy'n cael eu rhestru uchod. Mae'n hawdd gwneud amcangyfrif rhy isel o faint o staff fydd yn ofynnol i chi gynllunio a rhedeg eich achlysur yn llwyddiannus.

Dylech chi ystyried faint fydd eu hangen arnoch chi yn ogystal â'r stiwardiaid a restrir dros y dudalen. Meddyliwch am faint o gynorthwywyr maes parcio ac ati bydd eu hangen arnoch chi i reoli pethau'n ddiogel. Os ydych chi am werthu alcohol bydd angen i chi ddangos pwy yw'r goruchwyliwr safle dynodedig.

Ystyriwch - oedrannau/gallu/sifftiau/cymhwysedd/hyfforddiant/statudol – cyflogedig/gwirfoddolwr/arall.

## Stiwardio

Prif gyfrifoldeb y stiwardiaid yw rheoli tyrfaoedd a dylid defnyddio asesiad risg i bennu faint sydd eu hangen ar gyfer yr achlysur. Dylid ystyried y proffil tyrfa, natur y safle, os oes alcohol ar werth, amodau tywydd a'r amodau goleuo. Gall achlysuron llai ddefnyddio gwirfoddolwyr i wneud gwaith stiwardio tra gall trefnwyr achlysuron mwy gyflogi stiwardiaid proffesiynol. Yn y naill achos a'r llall rhaid i'r stiwardiaid gael eu hyfforddi'n briodol a'u briffio ynghylch eu cyfrifoldebau. Dylen nhw fod yn hawdd eu hadnabod.

Dylid datblygu cynllun stiwardio sy'n amlygu lleoliadau, niferoedd, rolau, disgwyliadau a'r hyn y dylen nhw ac na ddylen nhw fod yn ei wneud, yn ogystal â dulliau cyfathrebu a strwythurau rheoli.

Rhestrwch yma nifer y stiwardiaid a'u meysydd cyfrifoldeb eang a chynhwyswch y prif gynllun stiwardio mewn Atodiad i'r cynllun yma.

Dylai stiwardiaid gael eu briffio a dylen nhw fod yn gymwys i gyflawni eu rôl. Mae Atodiad 3 yn enghraifft o friff ar gyfer stiwardiaid. Dylech chi ddatblygu un sy'n benodol i'ch achlysur a darparu copïau i stiwardiaid. Mae hefyd yn bwysig eich bod chi'n cadarnhau eu bod yn deall eu dyletswyddau a'u bod nhw'n cael eu monitro'n rheolaidd.

## Diogelwch

Efallai y bydd eich asesiad risg a/neu ddisgwyliadau gan bartïon eraill megis yr Adran Drwyddedu neu'r Heddlu yn pennu bod angen defnyddio staff proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA).

Cynhwyswch fanylion y darparwr Diogelwch a'r hyn sy'n cael ei ddarparu yma; cynhwyswch eu cynllun diogelwch mewn Atodiad i'r cynllun yma.

# Safbwynt yr NPCC

RHONDDA CYNON TAF

## ***Safbwynt yr NPCC AR BLISMONA ACHLYSURON***

"…..the police have no general duty to preserve public safety (crowd control) at any public event, except where there are imminent or likely threats to life …. the responsibility for public safety rests with the organisers of an event, the owners of the land on which it takes place ***and the local authority if the event takes place on a road.***

In the past the police service has taken the lead and undertaken actions to facilitate public events, acting for what ***they believed to be the public good***. However, a more focused approach, confining police action to those issues which are part of our core responsibilities and ***where there is legal authority,*** must be adopted.

……. in the current financial situation, forces must also carefully consider every deployment of officers and staff and consider whether each deployment (whether paid for or not) represents best value and is the best use of the resource. This is particularly relevant in the field of event policing where, by the very nature of the event, there is ***an existing event organiser*** (many of whom will be organising the event for commercial purposes) with a ***moral and legal obligation to ensure the safety and security of people attending their event.*** For most events, this will mean organisers take their responsibilities seriously, comply with relevant legislation and put in place adequate control measures to manage crime, disorder and security meaning the presence of police is not required or is limited.

However, there will be occasions where the management of crime, disorder or security-related issues is beyond the capability of the organisers and the presence of police may be required. "

I'r perwyl yma - dylai pob cais Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Achlysuron ar gyfer achlysur gynnwys:

| Will you require assistance from the Police?<br><br>(Please note the Police will no longer manage traffic at events or processions) | Yes | | No | |
|---|---|---|---|---|
| Do you reference police support in either your emergency or contingency plans? | | | | |
| If so, have you made contact with them? | | | | |
| Who is your point of contact? | | | | |

**Please outline what assistance you require:**

**ALSO - Please provide brief details of what Counter Terrorism Measures will be in place to protect the public/those in attendance at the event. (full details should be in your EMP and Risk Assessments) Full consideration should be given to:**

| THREAT | Y/N | REASON |
|---|---|---|
| E.G. Vehicle as a weapon | N | Event indoor- no vehicle access |
| Vehicle as a weapon | | |
| Firearms and weapons attack | | |
| Chemical attack [Acid] | | |
| Improvised explosive device [IEDs] | | |
| Person Borne Improvised Explosive Device IED (PBIED) | | |
| Vehicle Borne IED (VBIED) | | |
| Bomb threat | | |

**For potential guidance please follow**

https://www.gov.uk/government/publications/crowded-places-guidance

**Mitigation considered/in place:**

Mae'r llyfryn canllaw **'Public Accessible Locations'** ('Crowded Places' yn flaenorol) ar gael i'w lawrlwytho trwy'r Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol. Mae'r llyfryn yn ganllaw i roi cyngor diogelwch amddiffynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am drefnu achlysuron mawr a diogelwch ar gyfer achlysuron, ni waeth beth fo'u maint a dydy'r canllawiau ddim yn benodol i unrhyw fath arbennig o achlysur. Mae wedi'i anelu at yr achlysuron hynny lle mae'n bosibl bydd risg o ymosodiad terfysgol naill ai oherwydd natur yr achlysur neu'r nifer neu natur y bobl sy'n ei gynnal neu sy'n debygol o fod yn bresennol ac mae'n amlygu'r rhan hanfodol mae modd i chi ei chwarae yn strategaeth gwrthderfysgaeth y DU.
https://www.gov.uk/government/publications/crowded-places-guidance

Yn ogystal, rydyn ni'n cynghori y dylai'r holl staff sy'n ymwneud ag achlysur, yn enwedig stiwardiaid a staff diogelwch, feddu ar wybodaeth ymarferol o gwrs e-Ddysgu Ymwybyddiaeth o **'ACT'** sydd wedi'i ddatblygu gan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol. Mae'r cwrs e-ddysgu yn cynnwys senarios fideo rhyngweithiol a thiwtorialau cyfarwyddiadol, ynghyd â chlipiau fideo a sain, i greu cwrs deniadol. Mae modiwlau yn ymdrin â meysydd allweddol megis nodi gwendidau mewn trefniadau diogelwch, ymateb i ymddygiad amheus, delio ag eitem amheus, sut i ddelio â bygythiad bom, ac ymateb i ymosodiad gyda dryll neu arfau eraill. Mae'r cwrs rhyngweithiol, sydd ar gael i gwmnïau neu unigolion preifat, yn cymryd 45 munud i'w gwblhau ac mae modd ei wneud i gyd ar yr un pryd neu mewn modiwlau byr. Mae'n esbonio sut i adnabod arwyddion ymddygiad amheus a beth i'w wneud i'ch helpu'ch hun, pobl eraill a'r ymatebwyr brys pe bai ymosodiad yn digwydd. I fewngofnodi a dysgu, ewch i https://ct.highfieldelearning.com/.

## Cysylltiadau Allweddol ar gyfer Trefnu Achlysuron – Rheolwyr

Llenwch y tabl canlynol gyda'r enwau, rolau, cyfrifoldebau a manylion cyswllt (radio/symudol, ac ati) y bobl allweddol sy'n ymwneud â threfnu eich achlysur. Ychwanegwch ragor o linellau os oes angen; dilëwch linellau os nad oes eu hangen. Mae gan reolwr yr achlysur gyfrifoldeb am bob agwedd o'r achlysur. Yn dibynnu ar natur a graddfa'r achlysur, bydd pobl eraill yn cael tasgau a chyfrifoldebau allweddol wedi'u dyrannu iddyn nhw ond bydden nhw'n adrodd i reolwr yr achlysur.

| Enw | Rôl | Cyfrifoldeb | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|
| | Rheolwr yr Achlysur | Cyfrifoldeb cyffredinol | |
| | Cynhyrchiad | Holl seilwaith yr achlysur, archebu, amseroedd dosbarthu ac ati | |
| | Gwirfoddolwyr Cydlynydd | Recriwtio gwirfoddolwyr, hyfforddi a rheoli'r achlysur | |
| | Cydlynydd Stiwardiaid | Recriwtio, hyfforddi a rheoli'r achlysur | |
| | Swyddog Iechyd a Diogelwch | Asesiadau risg, cydymffurfiaeth gyfreithiol, pwyntiau tân, arolygiadau o'r safle, trefniadau cymorth cyntaf | |
| | Llesiant | Cyfleusterau toiledau a golchi | |
| | Rheoli Gwastraff | Trefnu clirio gwastraff ac ailgylchu | |
| | Rheolwr Bar | Rheoli'r Bar | |
| | Rheoli Sain | Monitro / Rheoli Lefelau Sain | |
| | Meddyg Arweiniol/ Arweinydd Meddygol – Darparwr Cymorth Cyntaf | Darparu gofal meddygol digonol ar gyfer yr achlysur ac ymwelwyr | |

## Cysylltiadau Allweddol ar gyfer Trefnu Achlysuron - Eraill

Llenwch y tabl isod gyda manylion unrhyw gysylltiadau allweddol eraill ar gyfer eich achlysur. Ychwanegwch ragor o linellau os oes angen. Dylech chi gynnwys manylion pawb a fydd yn cymryd rhan yn eich achlysur, megis cyflenwyr, stondinwyr a chysylltiadau brys.

| Cyflenwyr (pebyll mawr, arlwyo ac ati) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sefydliad/Mudiad | Cyswllt | Gwasanaethau / Darparu | Manylion cyswllt | Nodiadau |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Awdurdodau (tân, heddlu, cymorth cyntaf ac ati) | | | | |
| Sefydliad/Mudiad | Cyswllt | Gwasanaethau / Darparu | Manylion cyswllt | Nodiadau |
| | | | E-bost a ffôn symudol | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Atyniadau, artistiaid ac adloniant | | | | |
| Sefydliad/Mudiad | Cyswllt | Gwasanaethau / Darparu | Manylion cyswllt | Nodiadau |
| | | | E-bost a ffôn symudol | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Gweithdrefnau

RHONDDA CYNON TAF

# Gweithdrefnau

## Gweithdrefnau mewn argyfwng

Rhaid i chi ddogfennu eich gweithdrefnau ar gyfer tân, gwacáu safle mewn argyfwng, cyfathrebu â'ch cynulleidfa mewn argyfwng, cysylltu â'r gwasanaethau brys, pwy fydd yn gwneud penderfyniadau, ac ati. Cynhwyswch ddiffiniadau, h.y. pan fydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad difrifol ac yn cael ei drosglwyddo i'r heddlu. Bydd angen i chi rannu eich gweithdrefnau brys gyda'r bobl sy'n briodol ar gyfer eich achlysur yn seiliedig ar natur a maint eich achlysur er enghraifft - staff, contractwyr, gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau brys.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n gweithio'n rhan o'r achlysur yn gwybod am y gweithdrefnau, eu rôl a'r dulliau cyfathrebu.

## Darpariaeth cymorth cyntaf a meddygol

Rhestrwch y darpariaethau cymorth cyntaf a meddygol y bydd gennych chi yn eich achlysur. Cofiwch gynnwys manylion asesiad risg meddygol, beth sy'n cael ei ddarparu, gan bwy, lleoliadau staff meddygol yn ogystal â gorsafoedd cymorth cyntaf/meddygol, niferoedd ac adnoddau arbenigol fel ambiwlansys. Ar gyfer achlysuron mwy, mae modd ychwanegu hyn mewn atodiad i'r ddogfen hon.

Yn ogystal, mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gofyn eich bod chi'n anfon gwybodaeth am eich achlysur gan ddefnyddio'r ddolen yma - Sicrwydd Meddygol Achysur.

****Sylwer bod Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a Chymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith ddim yn gymwysterau priodol ar gyfer y diwydiant achlysuron. Dylai fod gan swyddogion cymorth cyntaf ym maes achlysuron gymhwyster mewn Gofal Cyn Ysbyty i gynnwys defnyddio AED a therapi ocsigen. Mae FREC3 (Gofal Brys Ymateb Cyntaf) a FPOS (Person Cyntaf ar y Safle) yn enghreifftiau o'r fath. Cynghorir trefnwyr i ddefnyddio** Yr Arweinlyfr Porffor **am arweiniad ar y lefel priodol o waith paratoi. ****

Ar gyfer achlysuron lle disgwylir o leiaf 1000 o bobl / achlysuron risg uwch, bydd angen i chi ddarparu Cynllun Meddygol yn manylu ar lefel eich paratoadau. Mae modd i hyn gael ei ymgorffori yn eich Cynllun Rheoli Achlysur.

Dylid cynnwys y llwybr neu'r pwyntiau mynediad mwyaf priodol ar gyfer ambiwlansys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel nad oes unrhyw oedi diangen pe bai angen iddyn nhw fod yn bresennol.

Gweler Atodlen 8 am ragor o arweiniad.

## Diogelwch Tân yn eich Achlysur

Nodwch sut rydych chi wedi mynd i'r afael â meysydd allweddol yr asesiad risg tân:

- Nodi'r peryglon tân, e.e. ffynonellau tanio, tanwydd ac ocsigen
- Dynodi pobl sydd mewn perygl o fewn eich safle ac o'i amgylch a'r rhai sydd â'r risg uchaf
- Gwerthuso'r risg o dân a'r risg i bobl os byddai tân yn digwydd
- Dileu neu leihau peryglon tân a dileu neu leihau'r risg i bobl
- Ystyried canfod a rhybuddio, sut i ymladd tân, llwybrau dianc, arwyddion a hysbysiadau, goleuo, cynnal a chadw
- Cofnodi darganfyddiadau arwyddocaol ac wedi gweithredu arnyn nhw
- Paratoi cynllun argyfwng
- Hysbysu a chyfarwyddo pobl berthnasol a darparu hyfforddiant
- Adolygu a diwygio eich asesiad lle bo angen

## Cyfathrebu

Rhaid bod gennych chi ddull cyfathrebu dibynadwy ar gyfer yr achlysur; dylai hyn fod yn gymesur â maint a lleoliad eich achlysur. Rhaid i chi gael cynllun cyfathrebu clir ar waith a sicrhau fod pawb yn gyfarwydd â'r cynllun. Mae angen i chi hefyd sicrhau bod gennych chi'r offer cyfathrebu sydd ei angen arnoch chi ar y diwrnod. Gallai hyn gynnwys radios, ffonau symudol, staff i redeg negeseuon a system annerch gyhoeddus.

Mae'n hanfodol bod stiwardiaid a threfnwyr yn gallu cyfathrebu yn ystod yr achlysur. Ar gyfer achlysuron mwy, dylai fod o leiaf un swyddfa neu bwynt rheoli ar y safle,
sy'n cael eu rhedeg ar y cyd gan yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Mae tri phrif faes cyfathrebu ar gyfer eich achlysur:

- Gadael i drigolion a busnesau yn yr ardal gyfagos wybod am eich cynlluniau ar gyfer eich achlysur
  cyn i'r achlysur ddigwydd, gorau po gyntaf.
- Cyfathrebu mewnol ar ddiwrnod yr achlysur.
- Cyfathrebu â'ch cynulleidfa ar y diwrnod.

## Hysbysiad Achlysur - Trigolion Cyfagos

| |
|---|
| Cofiwch nodi sut byddwch chi'n rhoi gwybod i drigolion a busnesau am eich cynlluniau ar gyfer yr achlysur yma. |

## Cyfathrebu ar Ddiwrnod yr Achlysur - Mewnol

| |
|---|
| Dogfennwch eich cynlluniau ar gyfer cyfathrebu ar ddiwrnod yr achlysur ar gyfer staff yr achlysur a'r gwasanaethau brys, ar y safle ac oddi ar y safle, yma.<br>➢ Sicrhewch eich bod chi'n rhestru manylion cyswllt ffôn a manylion sianeli radio os yw radios yn cael eu defnyddio yn yr adran Cysylltiadau Rheoli Achlysur Allweddol.<br>➢ Sicrhewch fod pawb sy'n gweithio yn rhan o'ch achlysur yn gwybod am eich strwythur sefydliadol ac yn gwybod â phwy i gysylltu os oes angen iddyn nhw adrodd am ddigwyddiad drosglwyddo gwybodaeth.<br>➢ Sicrhewch fod eich cynllun cyfathrebu yn cyd-fynd â'ch cynllun ymateb brys. |

## Cyfathrebu ar Ddiwrnod yr Achlysur – Y Cyhoedd

| |
|---|
| Cofiwch gofnodi'ch cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â'ch cynulleidfa ar y diwrnod yma. Yn enwedig pan maen nhw'n ymwneud â gweithdrefnau brys. Cynhwyswch unrhyw negeseuon a baratowyd. |

## Plant Coll

Ar gyfer achlysuron lle mae modd i blant fod yn bresennol mae angen polisi a gweithdrefn
plant coll arnoch chi. Mae atodiadau 5, 6 a 7 yn enghreifftiau o weithdrefn ac maen nhw'n ffurflenni
mae modd eu haddasu i gyd-fynd ag anghenion eich achlysur.

## Rheoli Tyrfaoedd

Bydd y math o achlysur, safle a'r niferoedd sy'n debygol o fod yn bresennol yn pennu'r math o
reolaethau sydd eu hangen. Efallai y bydd angen gatiau mynediad a rhwystrau ar gyfer diogelwch y cyhoedd.
Dylid cynnwys lleoliadau'r rhain ar y cynllun o'r safle. Dylech chi hefyd ystyried proffil y gynulleidfa, oedrannau, nifer y bobl anabl a ddisgwylir, ac ati.

Dylai'r adran yma roi trosolwg manwl o sut y bydd y torfeydd yn cael eu rheoli.

# Cyngor Cyffredinol / Penodol

RHONDDA CYNON TAF

## Cyngor Cyffredinol / Penodol

## Traffig, Trafnidiaeth a Pharcio

Bydd achlysuron cymunedol llai yn cael effaith gyfyngedig ar draffig a pharcio; fodd bynnag, dylech chi dal ystyried hyn wrth gynllunio eich achlysur. Gall achlysuron mwy gael effaith fawr ar draffig a thrafnidiaeth leol a bydd angen asesiadau risg helaeth a chynlluniau manwl sy'n ymdrin yn benodol â thraffig a thrafnidiaeth.

- Sut bydd eich cynulleidfa darged yn teithio i'ch achlysur?
- Ystyriwch y cysylltiadau trafnidiaeth amrywiol o amgylch safle'r achlysur a sut bydd modd hyrwyddo'r rhain i'ch cynulleidfa fel ffordd o gyrraedd eich achlysur.

Ydych chi'n cynnig cau unrhyw ffyrdd neu wneud newidiadau i'r ffordd mae modd i draffig ddefnyddio'r briffordd? Bydd angen i chi roi o leiaf 8 wythnos o rybudd. Bydd o fudd i roi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl gan y gall llwyth gwaith effeithio ar gyflawni. Rhaid gwneud ceisiadau drwy wefan y cyngor https://forms.rctcbc.gov.uk/cy/Web/ttro/TypeOfApplication.

Oes unrhyw rwystrau neu fesurau lliniaru cerbydau yn cael eu defnyddio (os felly rhowch fanylion)?

Rhowch amlinelliad o unrhyw gynlluniau traffig, trafnidiaeth neu barcio ar gyfer eich achlysur yma. Ar gyfer achlysuron mwy efallai y bydd angen Cynllun Trafnidiaeth ar wahân y dylid ei atodi i'r cynllun yma.

## Cerbydau ar y Safle

Mae'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng cerbydau a staff / y cyhoedd, boed ar ddamwain neu trwy weithred fwriadol, yn risg bwysig sydd angen ei ystyried yn ystod y broses gynllunio ac asesu risg. Mae angen i gynlluniau fod yn eu lle i leihau'r siawns o ddigwyddiad o'r fath a'i effaith pe bai'n digwydd. Mae angen i'r cynlluniau yma ystyried yr amser mae'n cymryd i baratoi ar gyfer yr achlysur, faint o amser mae'n debygol o bara a chlirio ar ôl yr achlysur. Ystyriwch yr angen hefyd i gerbydau brys fynd i mewn ac allan o'r safle; lle bo'n bosibl ystyriwch ddarparu llwybrau addas at ddefnydd cerbydau brys yn unig.

Amlinellwch eich polisi cerbydau ar gyfer safle eich achlysur yma. Mae'n cael ei ystyried yn arfer da cael cyrffyw cerbydau yn eu lle pan fydd y cyhoedd yn bresennol a bod â gweithdrefnau ar waith i hwyluso achosion prin iawn o gerbydau'n gadael y safle dan reolaeth. Mae modd i'r gwasanaethau brys fynnu bod hyn yn digwydd ar gyfer rhai achlysuron.

## Trwyddedu

O dan Ddeddf Trwyddedu 2003 mae angen Trwydded Safle neu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer unrhyw achlysur sy'n ymwneud â gwerthu alcohol, darparu lluniaeth hwyr y nos a/neu adloniant rheoledig a ddiffinnir fel:

• Cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio;
• Dramâu;
• Ffilmiau;
• Bocsio neu reslo;
• Achlysur chwaraeon dan do;
• Perfformiad dawns (neu ddawnsio).

Ar gyfer achlysuron lle disgwylir 499 neu lai o bobl efallai y bydd angen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Efallai y bydd angen Trwydded Safle ar gyfer digwyddiadau o 500 neu fwy o bobl.

O dan Ddeddf Hapchwarae 2005 efallai y bydd angen trwyddedau neu hawlenni os bydd yr achlysur yn cynnig unrhyw fath o hapchwarae. Mae hyn yn cynnwys rhai mathau o wobrau neu raffl.

Os ydych chi'n casglu arian at achos elusennol neu ar ran elusen bydd angen i chi gael trwydded o leiaf 28 diwrnod cyn casglu'r arian gan Adran Drwyddedau'r Cyngor.

Os bydd eich achlysur yn cynnwys unrhyw weithgaredd trwyddedadwy, rhowch fanylion yma.

Efallai y bydd angen trwydded cymdeithas hawliau perfformio. Bydd prynu trwydded *cymdeithas hawliau perfformio* yn eich helpu chi i ddefnyddio neu chwarae cerddoriaeth yn gyfreithlon. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.prsformusic.com/licences

## Hawliau Eiddo Deallusol

Os yw nwyddau i'w gwerthu yn yr achlysur yna dim ond Nwyddau Trwyddedig Swyddogol y mae hawl eu gwerthu.

Ac os bydd Mascotiaid Cymeriad yn cael eu defnyddio yn yr achlysur yna rhaid i drefnydd yr achlysur sicrhau mai dim ond gwisgoedd trwyddedig swyddogol y bydd y darparwr yn eu defnyddio a'u bod nhw wedi cael caniatâd gan y Deiliad Hawliau Eiddo Deallusol i'w defnyddio. **Gall y defnydd o fasgotiaid a chymeriadau byw heb gymeradwyaeth gan y Deiliad Hawliau Eiddo Deallusol dorri deddfwriaeth droseddol a sifil (Deddf Nodau Masnach 1994, Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988).**

Os bydd eich achlysur yn cynnwys unrhyw weithgaredd trwyddedadwy, rhowch fanylion yma.

## Darparu Alcohol

A fydd bar yn cael ei ddarparu? Os felly pwy fydd yn ei ddarparu? Rhowch fanylion:

Pwy fydd y Goruchwyliwr Mangre Dynodedig?

Sut fydd yr alcohol yn cael ei weini? Rhowch fanylion h.y.: poteli plastig, mesuryddion cwrw a defnyddio gwydrau plastig wedi'u stampio i gyflenwi cwrw, lager, seidr a gwin. Ni ddylid darparu cynhyrchion a restrir yng ngholofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

A fydd gwirodydd yn cael eu darparu? Os felly, sut fydd y rhain yn cael eu dosbarthu, h.y.: opteg wedi'i stampio, neu fesurau ac yna'n cael eu dosbarthu i wydrau plastig?

Nodwch pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i reoli yfed dan oed.

**Er enghraifft**

1. Gweithredu a gweithredu 'Cynllun Her 25' fel y'i hyrwyddir gan Swyddogion Safonau Masnach i gynnwys: -
• Arddangos arwyddion rhybudd priodol i'r perwyl bod unrhyw bersonau sy'n ymddangos fel pe bai nhw dan 25 oed yn destun her mewn perthynas â nwyddau sy'n waharddedig oherwydd oedran. Dylid arddangos arwyddion o'r fath yn y mannau lle mae alcohol yn cael ei weini.
• Bydd staff yn cael eu hyfforddi i ofyn i unrhyw gwsmeriaid sy'n ymddangos eu bod nhw o dan 25 oed i ddangos dull adnabod derbyniol ar bob achlysur y maen nhw'n mynd at y bar i brynu alcohol. Bydd pobl dros 18 oed yn cael band arddwrn unwaith y bydd eu hoedran wedi'i gwirio.
• Dyma'r unig ffurfiau derbyniol o brawf adnabod:
a) Cerdyn prawf oedran ag achrediad PASS
b) Trwydded yrru â llun
c) Pasbort
d) Cerdyn adnabod milwrol
• Bydd pob aelod o staff sy'n gweithio yn yr achlysur yn derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio cynllun Her 25 a ffurfiau derbyniol o gardiau adnabod.

2. Bydd staff diogelwch yn cael y dasg o nodi unrhyw werthiannau dirprwyol. Bydd alcohol yn cael ei atafaelu gan rai dan 18 oed.

3. Bydd diodydd yn cael eu cyfyngu i werthu tair diod alcoholaidd fesul cwsmer.

## Darparu Bwyd

Rhowch fanylion unrhyw wasanaeth arlwyo neu fwyd rydych chi'n bwriadu ei ddarparu yn ystod eich achlysur yma. Dylech chi hefyd restru manylion unrhyw gonsesiynau arlwyo yn yr adran Cysylltiadau Allweddol yr achlysur - eraill.

Rydyn ni'n argymell eich bod chi ond yn defnyddio darparwyr bwyd sydd â sgôr hylendid bwyd o 3 neu fwy. Rhowch wybod i'r adran Iechyd yr Amgylchedd (Carfan Diogelwch Bwyd) drwy ffonio 01443 425001 / Bwyd.IechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk pa ddarparwyr bwyd y byddwch chi'n eu defnyddio.

Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd yn y sector manwerthu ac arlwyo ddarparu gwybodaeth am alergenau a dilyn labelu fel y nodir mewn cyfraith bwyd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weithredwyr busnesau bwyd -

1. darparu gwybodaeth am alergenau i'r defnyddiwr ynghylch bwyd a diod sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw a heb ei becynnu ymlaen llaw;
2. trin a rheoli alergenau bwyd yn effeithiol wrth baratoi bwyd; Rhaid i fusnesau bwyd sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant ar alergenau.

Argymhellir eich bod chi'n adolygu eich gweithdrefnau storio, paratoi a thrin bwyd i leihau’r risg o groeshalogi, yn enwedig gan y bwydydd sy’n achosi adweithiau anoddefiad amlaf, megis grawnfwydydd (sy’n cynnwys glwten), cramenogion (pysgod cregyn a molysgiaid), wyau, pysgod, cnau daear, ffa soia, llaeth a chynhyrchion llaeth, cnau coed, a hadau sesame.
Yn ddelfrydol dylech chi: -

Cael storfa ar wahân ar gyfer cynhwysion ac ati sy'n cynnwys alergenau neu sicrhau bod y cynwysyddion sy'n dal cynhwysion o'r fath yn cael eu cadw ar gau, a

Gwahanwch y broses o baratoi bwydydd sy'n cynnwys alergenau. Mae modd eu gwahanu trwy ddulliau ffisegol, e.e. byrddau paratoi ar wahân, neu yn ôl amser, e.e. bwydydd sy'n cynnwys cnau yn cael eu paratoi olaf, a thrwy weithdrefnau glanhau/diheintio ar gyfer arwynebau gwaith, offer ac ati ar ôl eu defnyddio.

Ni ddylid darparu cynhyrchion a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

## Ffeiriau Hwyl

Cyn cael cymeradwyaeth ar gyfer reidiau neu ffeiriau hwyl bydd angen i chi sicrhau:

- Bod unrhyw reid unigol neu reidiau sy'n rhan o ffair hwyl yn rhan o'r cynllun Gweithdrefnau Arolygu Dyfeisiau Difyrru (ADIPS).

- Mae'r gweithredwr yn rhoi copi o'u papurau Arolygiad Blynyddol i chi. Bydd angen i chi ddarparu copi o'r rhain i ni gyda'ch cynllun rheoli achlysur.

- Mae'r gweithredwr yn cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn gweithredu o dan HSG175 'Fairgrounds and Amusement Parks – Guidance on Safe Practice'.

Nodwch unrhyw reidiau neu ffeiriau hwyl rydych chi'n bwriadu eu cael yn eich achlysur yma ynghyd â manylion cyswllt y darparwyr.

## Offer Chwarae Gwynt

Cyn cael cymeradwyaeth ar gyfer offer chwarae gwynt, bydd angen i chi sicrhau:

- Bod y gweithredwr yn gallu darparu copi o'r dystysgrif prawf PIPA/ADIPS gyfredol ar gyfer yr offer.
- Bod y gweithredwr yn cynnal y gwiriadau dyddiol ar yr offer fel sy'n ofynnol yn ôl EIS7.
- Rydych chi'n gwybod pryd y cafodd yr offer ei arolygu'n llawn ddiwethaf.
- Byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau llawn ar sut i'w weithredu'n DDIOGEL.
- Mae'r offer wedi'i nodi'n glir gyda chyfyngiadau defnydd (uchder uchafswm y defnyddiwr ac ati).
- Ydych chi'n aelod o gymdeithas berthnasol (AIMODS, NAIH neu BIHA)?
- Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Cynllun Arolygu Offer Chwarae Gwynt (PIPA).

Rhestrwch unrhyw offer chwarae gwynt rydych chi'n bwriadu cael yn yr achlysur yma a manylion cyswllt y darparwyr.

RCT Inflatables safety advice - Copy.pdf

## Tân Gwyllt / Coelcerthi

Rhaid i arddangosfeydd tân gwyllt cyhoeddus mewn achlysuron gael eu cynllunio a'u rheoli'n briodol gan a cwmni neu berson cymwys (h.y. rhywun â hyfforddiant digonol a phrofiad perthnasol);

- Rhaid cynnal asesiad risg gan ystyried y tywydd a'r lleoliad ac er mwyn dewis tân gwyllt priodol ar gyfer yr arddangosfa a chynllunio ar gyfer argyfwng.
- Rhaid cadw'r cyhoedd allan o'r safle arddangos - yn aml bydd hyn yn gofyn am rwystrau addas a threfniadau stiwardio.
- Bydd angen ystyried timau tân pwrpasol gydag offer diffodd priodol.
- Dylid ystyried materion amgylcheddol a'r effaith y gall tân gwyllt ei chael ar les anifeiliaid ac ar bobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys sŵn, malurion a mwg.
- Rhaid gwneud trefniadau digonol ar gyfer clirio'r safle ar ôl yr arddangosfa.

**Canllawiau ychwanegol:**
**GYOFD-Red-Guide.pdf**
**WTOFD-Blue-Guide.pdf**
**Firework Display leaflet ENG.pdf**
**Taflen Arddangosfa Tân Gwyllt.pdf**

## Effeithiau Arbennig

Rhaid cynllunio'r defnydd o effeithiau arbennig a gweledol mewn achlysur yn gywir.

- Dylai'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithiau arbennig gael eu hasesu gan berson cymwys a dylid gweithredu mesurau rheoli risg effeithiol.
- Rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio, cydosod a chyflawni effeithiau arbennig fod wedi'u hyfforddi'n briodol a dylen nhw fod yn gymwys.
- Rhaid darparu amser ac adnoddau digonol i baratoi ac ymarfer.
- Rhaid sicrhau bod cyfleusterau diogel ar gael ar gyfer cydosod, asio ac ati effeithiau ffrwydrol cyn eu defnyddio.
- Rhaid gwneud trefniadau rhag ofn y bydd argyfwng.

## Meysydd Gwersylla

Mae angen rhoi pwyslais ar gynllunio priodol i sicrhau bod lefel digonol o wasanaethau a chyfleusterau ar y maes gwersylla ar gael trwy gydol yr achlysur ac nid yn ystod y cyfnod o adloniant trwyddedig yn unig. Dylai gweithdrefnau ar gyfer gwacáu meysydd gwersylla gael eu cynnwys yn y cynlluniau brys / cynlluniau gwacáu.

## Sŵn

Mae'r pethau sy'n fwyaf tebygol o achosi niwsans sŵn yn cynnwys llwyfannau cerddoriaeth fyw, ffeiriau hwyl a'r system sain.

Meddyliwch am niwsans sŵn pan fyddwch chi'n dewis lleoliad eich achlysur.
Bydd yn rhaid i achlysuron mwy sydd â llwyfan cerddoriaeth bob amser ddefnyddio ymgynghorydd sŵn cymwys yn ogystal â'r peiriannydd sain a rhaid iddo gytuno ar lefelau sain gyda Charfan Llygredd a Safonau Tai y Cyngor.
Rhowch rif ffôn yn ystod y dydd i drigolion rhag ofn bydd angen iddyn nhw wneud cwyn am sŵn ar ddiwrnod yr achlysur.

Cadwch gofnod o gwynion a dderbyniwyd o ganlyniad i'r achlysur a chamau a gymerwyd i'w datrys.
Rhestrwch yr elfennau yn eich achlysur a allai achosi niwsans sŵn a rhowch fanylion y cynlluniau sydd gennych chi mewn lle i'w leihau.

Ar gyfer achlysuron mwy, dylid paratoi cynllun rheoli sŵn a chytuno arno gyda'r garfan Llygredd a Safonau Tai.

Gall lefelau sŵn a monitro fod yn rhan o'ch amodau trwyddedu.

## Anifeiliaid mewn Achlysuron

Da Byw (Gwartheg, Defaid, Moch, Geifr a Cheirw) mewn Achlysuron
Gweler Atodiad 11 am ragor o wybodaeth.

Adar mewn Achlysuron
Gweler Atodiad 11 am ragor o wybodaeth.

Rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor cyn dod ag anifeiliaid i'r safle ar gyfer arddangosfa, perfformiad neu adloniant. Efallai y byddwn ni'n gwahardd defnyddio anifeiliaid sy’n achosi perygl i’r cyhoedd. Mae'n bwysig nodi na chaniateir rhoi anifeiliaid fel gwobrau mewn achllysuron ac ar dir y Cyngor.

Rhaid i chi ddarparu copïau o'r holl drwyddedau a dogfennau cofrestru perthnasol ar gyfer pob anifail gyda'ch cynllun cais i gynnal achlysur.

Rydych chi'n gyfrifol am les yr anifeiliaid o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae hyn yn cynnwys cludiant anifeiliaid, llety, bwyd a sut maen nhw'n cael eu harddangos i'r cyhoedd. Fel y cyfryw, bydd trefnwyr achlysuron yn sicrhau bod person cymwys yn bresennol drwy gydol yr achlysur er mwyn monitro lles yr anifeiliaid.

Rhowch restr fanwl o'r holl anifeiliaid rydych chi'n bwriadu dod i safle'r achlysur.
Rhowch gopïau o'r holl drwyddedau a dogfennau cofrestru perthnasol ar gyfer pob anifail.

Mae reidiau mulod yn weithgaredd trwyddedadwy.

## Toiledau

Rhaid i chi sicrhau bod cyfleusterau toiled digonol ar gael ar gyfer y sawl sy'n dod i'ch achlysur. Bydd y rhain yn seiliedig ar hyd yr achlysur, natur y gweithgareddau a'r rhaniad demograffig gan gynnwys darpariaeth i bobl anabl. Os does dim toiledau ar y safle eisoes, efallai y bydd angen dod â rhai i mewn.

Amlinellwch eich darpariaethau toiledau arfaethedig ar gyfer eich achlysur yn seiliedig ar eich niferoedd disgwyliedig a'r rhaniad rhywedd yma. Cynhwyswch y cyflenwr (os nad yw ar y safle eisoes),lleoliadau a threfn cynnal a chadw.
Mae canllawiau Fforwm y Diwydiant Achlysuron ar gyfer niferoedd toiledau yn unol â'r Canllaw Porffor i'w gweld tros y dudalen. Sylwch fod Tabl 1 yn cyfeirio at flociau toiledau/toiledau hunangynhwysol sydd heb fasnau mewnol ac mae Tabl 2 yn cyfeirio at doiledau hunangynhwysol gyda basnau mewnol. Bydd modd cael eglurhad pellach ar y gwahanol fathau gan y darparwr.

## Tabl 1

| | Female Toilets | Male Toilets | Urinals | Accessible toilets for disabled and wheelchair users |
|---|---|---|---|---|
| **For Events with a gate time of less than 6 hours duration** | 1 per 100 | 1 per 500 | 1 per 150 | 1 per 50 |
| **For events with a gate opening time of 6 hours or more but with little or no alcohol or food served** | 1 per 85 | 1 per 425 | 1 per 125 | 1 per 45 |
| **For events with a gate opening time of 6 hours or more with alcohol and food served in quantity** | 1 per 75 | 1 per 400 | 1 per 100 | 1 per 40 |
| **For campsites at major events swapping emphasis from urinals to wc's for males** | 1 per 75 | 1 per 150 | 1 per 250 | 1 per 40 |

## Tabl 2

| | Female toilets | Male Toilets | Urinals | Accessible toilets for disabled and wheelchair users |
|---|---|---|---|---|
| For Events with a gate time of less than 6 hours duration | 1 per 80 | 1 per 400 | 1 per 150 | 1 per 50 |
| For events with a gate opening time of 6 hours or more but with little or no alcohol or food served | 1 per 68 | 1 per 340 | 1 per 125 | 1 per 45 |
| For events with a gate opening time of 6 hours or more with alcohol and food served in quantity | 1 per 60 | 1 per 320 | 1 per 100 | 1 per 40 |
| For campsites at major events swapping emphasis from urinals to wc's for males | 1 per 60 | 1 per 120 | 1 per 250 | 1 per 40 |

## Rheoli gwastraff

Mae'n hanfodol bod gan eich achlysur gynllun rheoli gwastraff mewn lle a'i fod yn cael ei weithredu yn unol â Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle 2024.

- Sut byddwch chi'n cadw'r safle yn glir o wastraff? A fydd hyn yn cael ei wneud gan stiwardiaid neu wirfoddolwyr?
- Sut byddwch chi'n rheoli gwastraff yn ystod ac ar ôl eich achlysur, gan gynnwys manylion biniau, sgipiau, ailgylchu, codi sbwriel a gwahanu ailgylchu?

Rhowch fanylion eich cynlluniau ar gyfer rheoli gwastraff ar gyfer eich achlysur yma.

## Ailgylchu

Dylai fod gan eich achlysur gynllun ailgylchu yn ei le yn unol â Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle 2024 a dylech chi ddilyn y cynllun yma.

Ar gyfer achlysuron cymunedol bach, gallai hyn fod mor syml â labelu rhai biniau i annog pobl i wahanu eu hailgylchu yn boteli plastig, papur, bwyd, ac ati.

Bydd angen i achlysuron mwy ddangos bod ganddyn nhw neu strategaeth ailgylchu neu eu bod nhw'n cyflogi sefydliad ailgylchu proffesiynol i reoli gwastraff ac ailgylchu ar wahân gan gynnwys bwyd ar y diwrnod.

- Sicrhewch fod eich consesiynau a'ch cyflenwyr bwyd yn cydymffurfio â Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle 2024 a bod gennych chi bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer defnyddio cynhyrchion mae modd eu hailddefnyddio neu ddarparu cynwysyddion a systemau bioddiraddadwy ar gyfer gwaredu dŵr budr, bwyd ac olew coginio ac ati.
- Meddyliwch sut y byddwch chi'n gorfodi gwahanu ailgylchu a gwastraff bwyd. Bydd deunyddiau ailgylchadwy halogedig yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi a gall hyn fod yn destun dirwyon.

Rhowch fanylion eich cynlluniau ar gyfer ailgylchu ar gyfer eich achlysur yma.

## Strwythurau Dros Dro

Ar gyfer achlysur bach, gall strwythurau dros dro fod yn stondinau marchnad a phabell fawr.
Mae modd i achlysuron mwy o faint a gwyliau gynnwys llwyfannau, prif standiau, tyrrau goleuo, nenbontydd, swyddfeydd safle ac ati. Bydd angen darparu manylion ymlaen llaw i'r garfan Rheoli Adeiladau. Ar gyfer strwythurau mwy mae angen i hyn gynnwys disgrifiad o'r hyn sy'n cael ei adeiladu, meintiau, defnyddiau, lluniad, datganiad dull o adeiladu, copïau o RA. Bydd angen i'r cyfan gael ei gymeradwyo gan beiriannydd annibynnol gan gynnwys unwaith y bydd y strwythur wedi'i gwblhau i ddweud ei fod yn ddiogel ac yn barod i gael ei ddefnyddio. Ystyried galluoedd llwyth gwynt, gofynion balast a datgymalu.

Bydd y broses gymeradwyo yn dibynnu ar y mathau o raddfa a strwythur. Os bydd y strwythurau ar waith am amser hir, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch chi.
Mae angen i beirianwyr annibynnol gymeradwyo strwythurau mwy dros dro cyn y bydd modd eu defnyddio.

Fel isafswm:

- Bydd angen i bob cyflenwr roi copi o'u tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogeion i chi.
- Bydd angen i bob cyflenwr ddarparu asesiadau risg perthnasol a datganiadau dull ar gyfer y cynnyrch y maen nhw'n ei gyflenwi ar gyfer eich achlysur.
- Rhaid i gyflenwyr ddarparu archwiliad trosglwyddo wedi'i lofnodi unwaith y bydd y strwythur wedi'i gwblhau i ddweud ei fod yn ddiogel ac yn barod i'w ddefnyddio.

Cynhwyswch restr o'r holl strwythurau dros dro, eu cyflenwyr (gan gynnwys manylion cyswllt) a sut y cyflawnir y materion a godwyd uchod a phwy sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae adeiladu rhai strwythurau dros dro ar gyfer achlysuron adloniant yn dod o fewn y diffiniad o waith adeiladu yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007 (CDM).

Dylid ystyried hefyd os bydd angen i chi weithio ar uchder. Dylech chi sicrhau bod yr holl waith ar uchder rydych chi'n ei wneud yn cael ei reoli a'i fod yn cael ei drefnu a'i gynllunio'n gywir. Dylid cynnal asesiad risg perthnasol.

## Trydan

Rhaid i bob gosodiad trydanol, hyd yn oed rhai dros dro, gydymffurfio â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989. Rhaid i drefnwyr unrhyw achlysur sy'n cynnwys cyflenwad trydan gael trydanwr cymwys i gymeradwyo'r gwaith cyn i'r achlysur ddechrau.

Os ydych chi'n cynnwys cyflenwad trydanol yn rhan o'ch achlysur, rhowch fanylion yma.

Generaduron

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio generaduron symudol gallwch gyfeirio at BS 7430 ar gyfer y gofynion daearu ar gyfer achlysuron awyr agored.

Dylid annog pobl i beidio â defnyddio generaduron tanwydd petrol o blaid diesel, nwy neu ynni adnewyddadwy.

Ni ddylai'r cyhoedd na phobl anawdurdodedig eraill fynd at y generadur na'i gyflenwad tanwydd ac efallai y bydd angen ei ffensio. Dylid darparu offer diffodd tân priodol a digonol.

Rhwystrau a Ffensio

Mae sawl pwrpas i rwystrau a ffensys mewn achlysuron. Mae modd eu defnyddio i:
• darparu diogelwch corfforol, fel yn achos ffens perimedr uchel mewn achlysur awyr agored)
• diogelu peryglon
• cynorthwyo i reoli ymwelwyr i achlysuron a dylanwadu ar eu hymddygiad
• diffinio llwybrau
• tynnu llinellau gweld
• atal y gynulleidfa rhag dringo ar ben strwythurau dros dro
• lleddfu ac atal pwysau cynulleidfa rhag cronni.

Mae'n bwysig bod y defnydd o rwystrau a ffensys mewn unrhyw achlysur yn cael ei ystyried yn drylwyr a bod asesiad risg yn cael ei gynnal. Mae modd i'r defnydd anghywir o rwystr/cynnyrch ffensio ar gyfer y lleoliad a/neu amgylchiadau achosi anaf neu niwed.

## Tywydd

Mae modd i'r tywydd effeithio ar eich achlysur mewn nifer o ffyrdd - gwres, glaw, stormydd, ac ati. Yn dibynnu ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal a'r amodau ar adeg yr achlysur, bydd angen dogfennu gweithdrefnau ar sut y bydd materion yn cael eu rheoli. Bydd pethau i'w hystyried yn amrywio o ddarparu dŵr yfed er enghraifft, i roi'r gorau i weithgareddau risg uchel hyd at ganslo'r achlysur.

Bydd y tywydd hefyd yn rhan o'ch asesiad risg.

Nodwch eich gweithdrefnau yma yn ogystal â phwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a sut bydd materion yn cael eu cyfleu i staff a’r cyhoedd (cyn ac yn ystod yr achlysur).

# Atodiadau

RHONDDA CYNON TAF

# ATODIADAU

1. Ffynonellau Arweiniad Pellach
2. Asesiad Risg Enghreifftiol
3. Enghraifft o Friff i Stiwardiaid
4. Rhestr Wirio Archwiliad Diogelwch Enghreifftiol
5. Polisi Plant Coll a Phlant wedi'u Darganfod Enghreifftiol
6. Ffurflen Plant Coll Enghreifftiol
7. Ffurflen Plant wedi'u Darganfod Enghreifftiol
8. Ffurflen Asesu Risg Meddygol
9. Enghraifft o Lythyr i Arddangoswr
10. Enghraifft o Lythyr i Gontractwr
11. Da Byw (Gwartheg, Defaid, Moch, Geifr a Cheirw) mewn Achlysuron
12. Cynllunio Achlysuron ac Ystyriaethau o ran Gwrthderfysgaeth
13. Polisi Gwrthderfysgaeth a Llogi Lleoliad

# **ATODIAD 1:** Ffynonellau Arweiniad Pellach

1. Guidance on Running Events Safely - HSE
http://www.hse.gov.uk/event-safety/
2. Your guide to organising a street party - GOV.UK
https://www.gov.uk/government/publications/your-guide-to-organising-a-street-party
3. Crowded Place Guidance - GOV.UK
https://www.gov.uk/government/publications/crowded-places-guidance
4. Organising Firework Displays - HSE
http://www.hse.gov.uk/explosives/fireworks/using.htm
5. Managing Crowds Safely - HSE –
http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg154.htm
6. The Purple Guide – http://www.thepurpleguide.co.uk/
7. Organising a voluntary event: a 'can do' guide - GOV.UK
https://www.gov.uk/government/publications/can-do-guide-for-organisers-of-voluntaryevents/the-can-do-guide-to-organising-and-running-voluntary-and-community-events
8. Temporary demountable structures (TDS) - stages, seating, marquees etc - HSE
http://www.hse.gov.uk/event-safety/temporary-demountable-structures.htm
9. Security at Events Guidance - SIA (Security Industry Authority)
https://www.sia.homeoffice.gov.uk/Documents/licensing/sia_security_at_events.pdf
10. Fire Safety - Risk Assessment - Open Air Events and Venues – HSE
https://www.gov.uk/government/publications/fire-safety-risk-assessment-open-air-eventsand-venues
11. Five Steps to Risk Assessment – HSE –
http://www.hse.gov.uk/risk/controlling-risks.htm
12. PIPA Inflatable Inspection Scheme – https://www.pipa.org.uk/
13. ADIPS (Amusement Device nspection Procedures Scheme) – ww.adips.co.uk
14. The Association of Event Organisers – https://www.aev.org.uk/e-guide
15. Circus Toolkit – https://circusgb.com/safety-tool-kit
16. General Security Advice
https://www.gov.uk/government/organisations/national-counter-terrorism-security-office
17. Crowded Places Guidance
https://www.gov.uk/government/publications/crowded-places-guidance
18. Canllawiau Corona (COVID-19) Llywodraeth Cymru
19. Guide to Safety at Sports Grounds 6ed Argraffiad (The Green Guide) – Sports Grounds
Yr Awdurdod Diogelwch. – https://sgsa.org.uk/greenguide/
20. SG03: Event Safety Management Guidance – Sports Grounds Safety Authority
https://sgsa.org.uk/safetymanagement/
21. Alternative Uses of Sports Grounds – Sports Grounds Safety Authority
https://sgsa.org.uk/alternative-uses-of-sports-grounds/
22. Demountable Structures – Sports Grounds Safety Authority
https://sgsa.org.uk/demountable-structures/
23. Temporary Drinking water guide 2023 (1).pdf

# **ATODIAD 2:** Asesiad Risg Enghreifftiol

**Asesiad Risg Enghreifftiol**

**TAFLEN GLAWR YR ASESIAD RISG**

| | |
|---|---|
| **Achlysur** | |
| **Dyddiad** | |
| **Lleoliad** | |
| **Cwmpas yr Ardal** | |
| **Trefnu** | |
| **AR wedi ei gynnal gan** | |
| **Dyddiad yr Ymgymerwyd â'r AR** | |

**Asesiad Risg Cyffredinol ar gyfer yr Achlysur**

Mae peryglon penodol wedi'u nodi gan aelodau'r grŵp trefnu.

Lle mae sefyllfa sydd ddim wedi'i nodi yn yr adran yma'n codi, y grŵp sy'n trefnu fydd yn gwneud y penderfyniadau ac yn cymryd camau gweithredu fel y bo'n briodol.

Os bydd sefyllfa'n codi sy'n gofyn am gychwyn Gweithdrefnau Rheoli Digwyddiad ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r sefydliadau dan sylw, bydden nhw'n dilyn eu gweithdrefnau eu hunain a byddai'r rhain wedi'u cytuno o flaen llaw.

NODWCH: Cymerwyd camau trwy gydol cam cynllunio'r achlysur yma i liniaru effeithiau'r peryglon yma a bydd monitro parhaus hyd at ac yn ystod yr achlysur yn lleihau neu'n dileu'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi o ganlyniad i'r peryglon yma.

**Cwmpas yr Asesiad Risg:**

**For example:**

- Traffic Management
- Crowd Management
- Event area hazards

### Gweithgareddau Allweddol / Proffil Ymwelwyr

**For example:**

- Cycling in groups on public roads/cycle paths.
- Mixed family groups, adults and unaccompanied older children.
- Mixed family groups, adults and unaccompanied older children.

### Matrics Asesu Risg

| Probability (P) | Severity (S) | Calculation of Risk (R) | Action Level |
|---|---|---|---|
| 4 - Very likely<br>3 - Likely<br>2 – Unlikely<br>1 – Very Unlikely | 4 – Multi death/injury<br>3 – Single death<br>2 –Specified Injury<br>1 – Minor/First Aid | (see matrix below) | LOW – no action required<br>MED – justify/review for each event day<br>HIGH – immediate action/further controls needed |

| Probability | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | 4. L | 8. H | 12. H | 16. H |
| 3 | 3. L | 6. M | 9. H | 12. H |
| 2 | 2. L | 4. L | 6. M | 8. H |
| 1 | 1. L | 2. L | 3. L | 4. L |
| Severity | 1 | 2 | 3 | 4 |

### Anafiadau Penodol

- torasgwrn, heblaw i fysedd, bodiau a bysedd traed;
- trychiad;
- datgymaliad yr ysgwydd, y glun, y pen-glin neu'r asgwrn cefn;
- colli golwg (dros dro neu barhaol);
- llosgiadau cemegol neu fetel poeth i'r llygad neu unrhyw anaf treiddgar i'r llygad;
- anaf o ganlyniad i sioc drydanol neu losgiad trydanol yn arwain at anymwybyddiaeth, neu mae angen proses adfywhau neu dderbyniad i ysbyty am fwy na 24 awr;
- unrhyw anaf arall sy'n arwain at hypothermia, salwch a achosir gan wres neu anymwybyddiaeth, neu sydd angen proses adfywhau neu arhosiad yn yr ysbyty am dros 24 awr;
- anymwybyddiaeth a achosir gan fygu neu amlygiad i sylwedd niweidiol neu gyfrwng biolegol;
- salwch acíwt sy'n gofyn am driniaeth feddygol, neu golli ymwybyddiaeth o ganlyniad i amsugno unrhyw sylwedd drwy anadlu, llyncu neu drwy'r croen;
- salwch acíwt sy'n gofyn am driniaeth feddygol lle mae lle i gredu bod hynny'n deillio o amlygiad.

| Perygl | Canlyniadau | Pwy sydd mewn perygl? | P | S | R | Mesurau Rheoli | P | S | R | Lefel Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llithro a baglu | Anaf | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 4 | 2 | 8 U | Mae ardal y digwyddiad yn fan cyhoeddus ac yn farsialiaid ffyrdd | 3 | 1 | 3 I | Isel |
| Gwrthdrawiadau ac effeithiau | Anaf, marwolaeth | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 4 | 3 | 12 U | Gwahanu tyrfaoedd / cerbydau Marsialiaid | 2 | 2 | 4 I | Isel |
| Cwympo o Uchder | Anaf, marwolaeth | Y cyhoedd | 2 | 3 | 6 C | Dim gweithgaredd yn digwydd ar uchder Mae ychydig o ddodrefn stryd uchel Marsialiaid | 1 | 2 | 2 I | Isel |
| Salwch | Salwch | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 2 | 2 | 4 I | Darpariaeth feddygol leol Marsialiaid Mae'r achlysur yn un byr | 1 | 2 | 2 I | Isel |
| Torfeydd / y cyhoedd | Gorlenwi | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 3 | 3 | 9 U | Marsialiaid Mannau gwylio dynodedig | 2 | 3 | 6 C | Canolig |
| Codi a chario | Anaf | Gweithwyr | 2 | 2 | 4 I | Gwaith codi a chario wedi'i gyfyngu i osod rhwystrau gan staff hyfforddedig | | | | Isel |
| Tywydd garw | Salwch / anaf | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 3 | 2 | 6 C | Mae'r achlysur yn un byr Cysgod digonol mewn eiddo masnachol | 3 | 1 | 3 I | Isel |
| Trais / materion ymddygiad | Anaf, marwolaeth | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 3 | 1 | 3 I | Presenoldeb yr Heddlu Marsialiaid | 1 | 1 | 1 I | Isel |

| Perygl | Canlyniadau | Pwy sydd mewn perygl? | P | S | R | Mesurau Rheoli | P | S | R | Lefel Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad / allanfa | Ciwiau hir Gorlenwi Cerbydau'r Gwasanaethau Brys Cyfyngiadau mynediad | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 4 | 3 | 12 U | Tyrfa'n cronni yn araf Ardal wylio fawr Rhwystrau mewn lle Nifer o fynedfeydd / allanfeydd Marsialiaid | 2 | 1 | 2 I | Isel |
| Rheoli traffig | Anaf, marwolaeth | Gweithwyr y Sector Cyhoeddus Gwirfoddolwyr Cyfranogwyr | 4 | 4 | 16 U | Cau ffordd Rhwystrau yn eu lle i greu ardal wylio fawr wedi'i gwahanu oddi wrth draffig Marsialiaid Terfynau cyflymder ardaloedd trefol System unffordd | 1 | 4 | 4 I | Isel |
| Sŵn o adloniant | Cwynion / Niwed i'r clyw | Trigolion / Cyfranogwyr mewn achlysur / Staff | 4 | 2 | 8 | Gosod lefelau sŵn priodol Monitro lefelau sŵn Darparu amddiffynwyr clustiau i staff a'r sawl sy'n bresennol yn yr achlysur | 3 | 2 | 6 | Canolig |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ymateb i gwynion gan drigolion lleol | | | | |

# ATODIAD 3: Briffio Stiwardiaid - Enghraifft

Darllenwch y cyfarwyddiadau yma'n ofalus, i sicrhau eich bod chi'n deall eich rolau a chyfrifoldebau drwy gydol yr achlysur. Maen nhw hefyd yn cynnwys gwybodaeth allweddol yn ymwneud â'r achlysur.
I gyd-fynd â'r papur briffio yma mae'r Gweithdrefnau Rheoli Argyfwng a map o Barc Pontypandy sy'n amlinellu lleoliadau elfennau allweddol. Sicrhewch eich bod chi bob amser yn effro i'r rhain a chadwch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi.

## Rhifau Cyswllt y Garfan Rheoli Achlysuron:

Julie Davies – 0111 222222
Helen Jones – 0222 333333
Jeff Williams – 0333 444444

| AMSER | ATYNIAD | LLEOLIAD |
|---|---|---|
| 11am-5pm | Trên Tir | Y tu mewn i Berimedr y Parc (yr ardal allanol o darmac ) |
| 11am-5pm | Deinosor, Fferm Symudol, Anifeiliaid Egsotig, Flossy a Boo | Ardal y Safle Seindorf |
| | Cychod Llyn | Llyn |
| 11am-5pm | Reidiau Asyn, Sorbio, Gwifren Zip Symudol | Ardal o laswellt rhwng Stondinau Bwyd/Crefft a'r Llyn |
| 11am-5pm | Ffair Hwyl | Ffordd Uchaf / Top y Parc |
| 12pm - 5pm | Llwyfan Cerddoriaeth Fyw – Gweler yr atodiad am amserlen | Ger Giatiau Lôn y Parc |
| 11am-5pm | Gwerthwyr Bwyd a Stondinau Crefft | Ger yr Ardal Chwarae i Blant |

## Gwybodaeth Gyffredinol:

- Mynediad am Ddim (codir costau ychwanegol ar rai atyniadau). Mae modd prynu tocynnau ar gyfer yr atyniadau yma ar y diwrnod.
- Bydd y man Rheoli Achlysuron wedi'i leoli yn y 'Porthdy' ger prif giatiau'r parc.
- Ar ôl cyrraedd a chyn gadael safle'r achlysur, rhaid i bob aelod o staff lofnodi cofrestr i mewn ac allan. Mae modd dod o hyd i'r gofrestr yn y man rheoli achlysur.
- Bydd gan y Babell Fawr 'Beth sy Mlaen' ddwy ran ar ddiwrnod yr achlysur - bydd yn gweithredu fel Pwynt Lles Plant Coll/Plant a Ddarganfuwyd ac fel lleoliad ar gyfer Darparu Gwybodaeth i'r cyhoedd.
- Bydd **DIM ALCOHOL** yn yr achlysur. Bydd chwiliadau'n cael eu cynnal gan swyddogion diogelwch yn y pwyntiau mynediad allweddol i atafaelu unrhyw alcohol a ganfyddir wrth ddod i mewn. Os sylwch ar unrhyw un sy'n meddu ar/yn yfed alcohol yn ystod yr achlysur, rhowch wybod i aelod o'r Garfan Rheoli Achlysur. Gofynnir i unrhyw un a ganfyddir ag alcohol i adael y parc neu ildio unrhyw alcohol a fydd yn cael ei waredu gan Garfan Rheoli Achlysuron.
- Toiledau – Mae toiledau'r parc wrth ymyl y Caffi ger y llyn. Mae yna hefyd doiledau cludadwy ledled y parc (gweler y map atodedig am eu lleoliadau).
- Mae Pwynt Lles Staff ar gael ar gyfer egwyliau staff y cytunwyd arnyn nhw yn ystod yr achlysur. Mae'r babell yma wedi'i lleoli y tu ôl i ardal y llwyfan, yr ochr arall i'r tarmac. Bydd dŵr a chyfleusterau glanweithiol yn cael eu darparu yn yr ardal yma. Ni ddylai staff sy'n gweithio yn ystod yr achlysur (gan gynnwys staff diogelwch) gael eu gweld yn ysmygu unrhyw le ac eithrio o fewn yr ardal ddynodedig a dylen nhw ddiosg eu siacedi 'Hi Vis'.

# Plant Coll/Plant wedi'u Darganfod:

## Plentyn wedi'i ddarganfod:

- Os byddwch chi'n dod o hyd i blentyn sy'n ymddangos ar ei ben ei hun, yn ofidus neu ar goll - eich prif rôl yw aros gyda'r plentyn.
- Tawelwch feddwl y plentyn y gwneir pob ymdrech i'w ail-uno ef â'i rieni/gwarcheidwaid, er mwyn lleihau pryder a straen gormodol.
- Rhowch wybod i'r Garfan Rheoli Achlysuron dros y radio – h.y. "*EICH ENW*....... i'r Garfan Rheoli Achlysuron". Ar ôl i aelod o'r garfan ymateb, dywedwch "Hoffwn roi gwybod am blentyn y daethpwyd o hyd iddo yn ardal.....".
- Bydd y Garfan Rheoli Achlysuron yn hysbysu eu rheolwyr, a fydd yn anfon uwch swyddog i ddod i gwrdd â chi. Rydych chi i aros gyda'r plentyn tan fod y Rheolwyr yn rhoi gwybod i chi fel arall.

## Plentyn Coll:

- Os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi am blentyn coll, rhaid i chi sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i'w hailuno â'u plentyn, gan leihau pryder a straen gormodol.
- Rydych chi i roi gwybod i'r Garfan Rheoli Achlysuron dros y radio – h.y. "*EICH ENW*....... i Rheoli'r Achlysur" ac ar ôl cael eich cydnabod gan aelod o'r garfan dywedwch "Hoffwn roi gwybod am blentyn coll yn ardal..........."
- Bydd yr aelod o'r garfan yn hysbysu rheolwr, a fydd wedyn yn mynd i weld y rhieni/gwarcheidwad, lle byddwch chi'n aros.
- Ar ôl cyrraedd bydd Rheolwyr yr Achlysur yn arwain ar y digwyddiad ac yn rhoi rhagor o gyfarwyddiadau i chi.

## Cymorth Cyntaf:

Bydd Ambiwlans Marks Medics ar y safle yn darparu gwasanaeth cymorth cyntaf. Bydd modd eu lleoli ger Ardal y Fferm Anwesu / Bandstand (gweler y map atodedig).

• Ar ôl dod o hyd i rywun sydd wedi'i anafu, cysylltwch â'r Garfan Rheoli Achlysuron dros y radio a rhowch cymaint o wybodaeth â phosibl am y digwyddiad i'r sawl sy'n ateb eich galwad h.y. rhowch
"*EICH ENW*....... i'r Garfan Rheoli Achlysuron" ac ar ôl cael eich cydnabod dywedwch "Hoffwn adrodd am ddigwyddiad yn ardal.......... Rydyn ni wedi: Cofiwch gynnwys:
NATUR Y DIGWYDDIAD AC UNRHYW FANYLION Y GALLWCH EU RHOI)."

• Bydd y Garfan Rheoli'r Digwyddiad wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i Marks Medics a rheolwyr yr achlysur – bydd y ddau ohonyn nhw'n chwilio amdanoch chi.

• Eich cyfrifoldeb chi yw aros gyda'r person(au) a anafwyd a cheisio eu cadw'n dawel, gan gael cymaint o wybodaeth â phosibl am yr hyn sydd wedi digwydd. Ar ôl i Garfan Rheoli Achlysuron gyrraedd, byddan nhw'n rhoi rhagor o gyfarwyddiadau i chi.

## Eiddo Coll:

Rhaid dod ag unrhyw eiddo coll sy'n cael ei ddarganfod i'r Babell 'Beth sy Mlaen' a'i roi i aelod o Garfan yr Achlysur ar unwaith. Hefyd, os bydd aelod o'r cyhoedd yn rhoi gwybod bod eitem ar goll, cyfeiriwch nhw at y Babell Beth sy Mlaen. Bydd yr holl eiddo coll / eiddo a ddarganfuwyd yn cael ei gofnodi.

## Gweithdrefnau Rheoli Argyfwng:

Cyfeiriwch at y ddogfen Gweithdrefnau Rheoli Argyfwng am fanylion ar yr hyn fydd yn digwydd yn ystod argyfwng (h.y. tân, gwacáu'r safle ar frys, argyfwng meddygol a phecynnau amheus), a'ch rolau a'ch cyfrifoldebau penodol.

## Ymddygiad cyhoeddus

Os gwelwch rywun sy'n ymddangos yn feddw neu'n ymddwyn yn ymosodol, rhowch wybod i'r Garfan Rheoli Achlysuron ac aelod o'r Tîm Rheoli Digwyddiad yn mynd i'ch swydd.

## Traffig

Bydd yr holl draffig (ar gyfer adeiladu a dymchwel strwythurau ar y safle) yn cyrraedd safle'r achlysur trwy bwynt mynediad y Giât Top. Bydd system unffordd yn ei lle a chaniateir i gerbydau yrru ar uchafswm o 5mya gyda'u goleuadau perygl yn cael eu defnyddio. Os ydych chi'n gweld bod y rheolau yma ddim yn cael eich dilyn, cysylltwch ag aelod o'r Garfan Rheoli Achlysur a rhoi gwybod iddyn nhw'n unol â hynny.

Bydd dim hawl i gerbydau symud o gwmpas y safle ar ôl 10.30am a dylai pob cerbyd nad yw'n rhan o'r achlysur fod yn glir o'r Parc erbyn yr amser yma. Caniateir cerbydau yn ôl ar y safle o 5.30pm. Rhwng **10.30am a 5.30pm** fydd **dim hawl i gerbydau symud ar y safle heblaw am gerbydau'r gwasanaethau brys sydd angen mynediad i'r safle** ac eithrio er mwyn caniatáu i anifeiliaid byw adael y safle. Bydd staff diogelwch a staff yr achlysur yn cael eu cyfarwyddo am eu rolau a'u cyfrifoldebau i hebrwng pob cerbyd sy'n dod i mewn ac allan o'r Parc yn ystod yr achlysur.

Sylwch: Os bydd aelod o'r cyhoedd yn gofyn cwestiwn i chi a dydych chi ddim yn gwybod yr ateb, ffoniwch aelod o'r Garfan Rheoli Achlysuron am ragor o wybodaeth.

Unwaith y byddwch chi wedi darllen y cyfarwyddiadau yma'n drylwyr, nodwch unrhyw beth dydych chi ddim yn deall yn llawn neu os oes gyda chi gwestiwn a chodwch hyn yn eich sesiwn friffio staff ar fore'r achlysur (h.y. am 8.00am).

### Mannau mynediad/allanfa

EV1 - Prif Fynedfa (gwaelod y parc ar yr ochr chwith)
EV2 Gyferbyn ag Ysgol Gynradd Parc Aberdâr a chroesfan sebra
EV3 Mynedfa Lôn y Parc (ar y dde ar waelod y parc)
EV4 Man mynediad parcio i'r anabl ger y cyrtiau bowls/tenis
Maes Parcio Meithrinfa EV5 (compownd y garddwyr)

**Unwaith y byddwch chi wedi darllen y cyfarwyddiadau yma'n drylwyr, nodwch unrhyw beth dydych chi ddim yn deall yn iawn ac eisiau holi amdano yn y sesiwn friffio i staff ar fore'r achlysur.**

# ATODIAD 4:
## Enghraifft o Restr Gwirio Archwiliad Diogelwch

Dylid cynnal archwiliadau diogelwch 'cerdded drwodd' yn union cyn, yn ystod ac ar ôl yr achlysur. Efallai y bydd angen mwy nag un arolygiad yn ystod yr achlysur. Gan ddefnyddio'r ffurflen yma nodwch yr holl ddiffygion a'r camau adferol a gymerwyd. Dydy hyn ddim yn rhestr gyflawn a dylid cymryd gofal i nodi unrhyw beryglon eraill sy'n gysylltiedig gyda'r gweithgareddau yn yr achlysur.

---

**Enw'r Achlysur:**      **Dyddiadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Or** | |

**Lleoliad:**

| |
|---|
| |

---

## Cyn yr Achlysur

| Mynedfa / Allanfa'r Safle | Atyniadau / gweithgareddau / strwythurau |
|---|---|
| ☐ Ydy mynedfeydd / allanfeydd yn glir?<br>☐ Oes staff / stiwardiaid yn eu lle?<br>☐ Oes modd i gerbydau brys gael mynediad?<br>☐ Ydy cerddwyr yn cael eu gwahanu oddi wrth gerbydau?<br>☐ Oes rhagofalon diogelwch ar waith?<br>☐ A ddarparwyd arwyddion digonol? | ☐ Ydy'r holl strwythurau wedi'u cwblhau?<br>☐ Ydy'r holl strwythurau wedi'u harolygu a'u cymeradwyo gan berson cymwys lle bo angen?<br>☐ Ydy'r holl weithgareddau / atyniadau wedi'u lleoli'n gywir ac wedi'u gwirio?<br>☐ Ydy pob gweithgaredd / atyniad wedi darparu tystiolaeth o yswiriant a chydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch?<br>☐ Ydy pob gweithgaredd a allai fod yn beryglus yn cael ei gadw ar wahân a/neu ei ffensio yn ôl yr angen?<br>☐ Ydy baneri / addurniadau dros dro wedi'u gosod yn gywir a'u gwirio?<br>☐ A gyflwynwyd unrhyw beryglon sydd heb eu rhagweld? |

| Cyflwr y safle | Darpariaethau ar gyfer yr achlysur |
|---|---|
| ☐ A yw'r safle'n rhydd o beryglon baglu, e.e. ceblau, tyllau yn y ffordd, diffygion ar y llwybrau troed, ac ati?<br><br>☐ Ydy gosodiadau parhaol mewn cyflwr da, e.e. seddi, ffensys, arwyddion, ac ati?<br><br>☐ Ydy'r llystyfiant wedi'i dorri'n ôl, ydych chi wedi cael gwared â malurion ac ydy'r ardal wedi'i diogelu?<br><br>☐ Ydy'r amodau tywydd presennol wedi creu peryglon newydd y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy? | ☐ Oes offer diffodd tân yn ei le?<br><br>☐ Oes goleuadau yn eu lle lle bo angen?<br><br>☐ Ydy cyflenwadau / offer trydanol wedi'u gwirio / cymeradwyo?<br><br>☐ Oes toiledau wedi'u lleoli lle bo angen?<br><br>☐ Oes cyfleusterau cymorth cyntaf yn eu lle?<br><br>☐ Oes canolfan reoli yn ei lle ac ydy'r system annerch y cyhoedd yn gweithio?<br><br>☐ Oes digon o finiau sbwriel?<br><br>☐ Ydy'r stiwardiaid yn eu lle? Ydy baneri / addurniadau dros dro wedi'u gosod yn gywir a'u gwirio?<br><br>☐ A gyflwynwyd unrhyw beryglon sydd heb eu rhagweld? |

**Gwallau a nodwyd:**

**Camau adferol sydd wedi'u cymryd:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw (priflythrennau)** | | | | **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | | **Amser** | : | | |

## Yn ystod yr achlysur

| Cyflwr y safle | Mynedfa / allanfa'r safle |
|---|---|
| ☐ Ydy mynedfeydd / allanfeydd yn glir?<br>☐ Ydy aelodau o staff / stiwardiaid yn eu lle?<br>☐ Oes modd i gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad?<br>☐ Ydy cerddwyr yn cael eu gwahanu oddi wrth gerbydau?<br>☐ Oes rhagofalon diogelwch ar waith?<br>☐ A ddarparwyd arwyddion digonol? | ☐ Ydy'r holl strwythurau wedi'u cwblhau?<br>☐ Ydy'r holl strwythurau wedi'u harolygu a'u cymeradwyo gan berson cymwys lle bo angen?<br>☐ Ydy'r holl weithgareddau / atyniadau wedi'u lleoli'n gywir ac wedi'u gwirio?<br>☐ Ydy pob gweithgaredd / atyniad wedi darparu tystiolaeth o ofynion yswiriant / iechyd a diogelwch?<br>☐ Ydy pob gweithgaredd a allai fod yn beryglus yn cael ei wahanu a/neu ei ffensio yn ôl yr angen?<br>☐ Ydy baneri / addurniadau dros dro wedi'u gosod yn gywir a'u gwirio?<br>☐ A gyflwynwyd unrhyw beryglon oedd heb eu rhagweld? |

| **Cyflwr y safle** | **Darpariaethau ar gyfer achlysuron** |
|---|---|
| ☐ Ydy’r safle’n rhydd o beryglon baglu, e.e. ceblau, tyllau yn y ffyrdd, diffygion ar y llwybrau troed?<br><br>☐ Ydy'r celfi parhaol, e.e. seddi, ffensys, arwyddion, mewn cyflwr da?<br><br>☐ Ydy'r llystyfiant wedi'i dorri'n ôl, ydych chi wedi cael gwared â malurion ac a yw'r ardal wedi'i diogelu?<br><br>☐ Ydy'r amodau tywydd presennol wedi creu peryglon newydd y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw? | ☐ Oes offer diffodd tân yn ei le?<br><br>☐ Oes goleuadau yn eu lle lle bo angen?<br><br>☐ Ydy cyflenwadau trydan / offer trydanol wedi'u gwirio / ardystio?<br><br>☐ A ddarparwyd toiledau lle bo angen?<br><br>☐ Oes cyfleusterau cymorth cyntaf yn eu lle?<br><br>☐ Oes canolfan reoli yn ei lle ac ydy'r system annerch y cyhoedd yn gweithio?<br><br>☐ Oes digon o finiau sbwriel?<br><br>☐ Ydy'r stiwardiaid yn eu lle? |

**Diffygion a nodwyd:**

**Camau adferol i'w cymryd:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw (priflythrennau)** | | **Llofnod** | |

| Dyddiad | | Amser | : | |
|---|---|---|---|---|

## Ar ôl yr Achlysur

| Stondinwyr / Atyniadau | Casglu Gwastraff |
|---|---|
| ☐ Ydy'r holl atyniadau wedi'i ddatgymalu a'u symud?<br><br>☐ Ydy'r holl stondinwyr wedi gadael y lleoliad?<br><br>☐ Ydy pob cerbyd wedi gadael y lleoliad? | ☐ Ydy'r holl wastraff wedi'i gasglu'n foddhaol?<br><br>☐ Ydy'r holl wastraff wedi'i symud o'r safle?<br><br>☐ A yw’r holl beryglon tân sy’n weddill wedi’u gwirio, e.e. tân gwyllt, coelcerthi? |

| Cyfleusterau Dros Dro | Amodau'r Lleoliad |
|---|---|
| ☐ Ydy'r holl offer wedi'i ddatgymalu a'i symud oddi ar y safle?<br><br>☐ Ydy'r holl strwythurau wedi'u datgymalu a'u symud oddi ar y safle?<br><br>☐ Ydy eitemau dros dro fel polion, rhaffau, fflagiau, wedi'u symud oddi ar y safle?<br><br>☐ Ydy'r holl dyllau / ffosydd ac ati wedi'u trwsio?<br><br>☐ A yw'r holl osodiadau trydan dros dro wedi'u hynysu a'u gwneud yn ddiogel? | ☐ Has any damage to permanent facilities, buildings or the ground been reported?<br><br>☐ A gafodd unrhyw ddifrod ei ddarganfod yn ystod yr arolygiad? |

**Os ydych chi wedi ateb 'ydy' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch ddisgrifiad cryno isod**

| |
|---|
| |

## Digwyddiadau / Damweiniau

☐ A adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau / damweiniau yn ystod yr achlysur?

Os ydych chi wedi ateb 'do', rhowch ddisgrifiad cryno isod

*(Os bu anaf personol llenwch y ffurflen adrodd am ddamwain a'i dychwelyd i'r Cyngor)*

| |
|---|
| |

**Camau adferol i'w cymryd:**

| | |
|---|---|
| | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw (priflythrennau)** | | | **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | | **Amser** | : | |

## ATODIAD 5: Enghraifft o Bolisi Plant Coll a Phlant sydd wedi'u Darganfod

Pwrpas y polisi yma yw sicrhau pryd bynnag y bydd digwyddiad yn ymwneud â phlentyn neu berson sy'n agored i niwed sydd ar goll neu wedi'i ganfod yna mae yna ffordd benodol o weithredu i sicrhau bod y person(au) yn cael eu haduno gyda'r rhieni a/neu warcheidwaid sy'n gyfrifol amdanyn nhw cyn gynted â phosibl.

Mae'r polisi yma'n ymwneud â phlant dan 18 oed ac unrhyw berson(au) eraill yr ystyrir bod barn y rhiant neu warcheidwad mewn perygl neu'n agored i niwed. Ar gyfer diben y polisi yma bydd y gair 'plentyn' yn cwmpasu a/neu'n cyfeirio at y ddau. I bwrpas y polisi yma cyfeirir at y 'Pwynt Lles' fel y babell 'Beth sy Mlaen' a bydd yn cael ei staffio rhwng 11.00am a 5.30pm. Mae staff sydd wedi'u lleoli yn yr ardal yma eisoes wedi cael eu briffio am y polisi a'r protocolau perthnasol i'w dilyn pe bai plentyn yn cael ei adrodd ar goll neu'n cael ei ganfod.

### i) Plant Wedi'u Darganfod

Os bydd plentyn yn cael ei ganfod neu'n ymddangos yn ofidus oherwydd ei bod ddim yn gallu dod o hyd i'w rieni neu warcheidwaid, dylech chi ddilyn y drefn ganlynol:

- Dylai'r aelod o staff sydd wedi dod o hyd iddo dawelu meddwl y plentyn y bydd pob ymdrech yn cael eu gwneud i'w hail-uno â'u rhieni/gwarcheidwaid gan leihau pryder a straen gormodol (bydd hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd tra bydd y plentyn yng ngofal y Garfan Achlysuron).
- Rhaid i'r aelod o staff dan sylw hysbysu Carfan Rheoli Achlysuron dros y radio – h.y "*Enw aelod o staff*....... i Reoli'r Achlysur," ar ôl cael ei gydnabod gan y Garfan Rheoli'r Achlysur, dylai'r aelod o staff ateb "Hoffwn roi gwybod am blentyn sydd wedi'i ddarganfod yn ardal.....".
- Mae'r neges yma i'w chyfleu i'r Garfan Rheoli Achlysuron, a fydd anfon uwch swyddog i'r ardal lle daethpwyd o hyd i'r plentyn, i sicrhau bod y plentyn yn cael ei reoli'n briodol. Yn ogystal, bydden nhw'n cynghori bod staff yn ceisio osgoi defnyddio'r radio er mwyn cadw'r tonnau awyr yn glir yn ystod y chwiliad.
- Dylai'r Garfan Rheoli Achlysuron hebrwng y plentyn i'r babell 'Beth sy Mlaen' i'w oruchwylio a dylid llenwi'r ffurflenni priodol.
- **Os bydd y plentyn yn sylwi ar ei rieni cyn cyrraedd y babell 'Beth sy 'Mlaen', bydd staff yn parhau i gyfeirio a mynd gyda'r plentyn (a'r rhieni) i'r babell 'Beth sy Ymlaen', er mwyn i'r Garfan Rheoli'r Digwyddiad ganfod eu bod nhw'n fodlon bod popeth yn iawn ac er mwyn llenwi 'Ffurflen Plentyn Wedi'i Ddarganfod'. Dylid hysbysu rhieni o resymeg y penderfyniad yma. Rhaid cadarnhau bod y plentyn yn adnabod yr oedolion.**
- Wedi cyrraedd y babell 'Beth sy 'Mlaen' bydd y plentyn yn cael ei gadw yno tan y deuir o hyd i'r rhieni/gwarcheidwaid, a byddan nhw'n cael eu goruchwylio/gofal gan ddau aelod cymwys o staff y Garfan Achlysuron. Bydd 'Ffurflen Plentyn Wedi'i Ddarganfod' yn cael ei llenwi.

- Gofynnir i'r plentyn roi disgrifiad byr o'r rhieni/gwarcheidwaid (eu hymddangosiad a beth maen nhw'n gwisgo) ar gyfer chwiliad gweledol gan holl staff yr Achlysur a staff Diogelwch.
- Os oes system seinydd ar waith (h.y. trwy lwyfan cerddoriaeth, arena achlysuron, ac ati) yna bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ynghylch darganfod y plentyn coll. **NID YW ENW'R PLENTYN I GAEL EI DDATGELU**, dim ond oedran, rhyw a'r dillad mae'n gwisgo.
- Dylid gwneud cyhoeddiad i ddweud – "A fydd rhieni neu warcheidwad bachgen/geneth.............(oed), yn gwisgo.................................. fynd i'r babell 'Beth sy 'Mlaen' melyn, drws nesaf i'r man chwarae i blant ar unwaith."
- Dylai oedolion sy'n cyrraedd neu'n cael eu hebrwng gan staff yr achlysur / staff diogelwch i'r babell 'Beth sy 'Mlaen' i gasglu'r plentyn cyn y cyhoeddiad roi enw'r plentyn, ei oedran a beth mae'n ei wisgo. Os yw'r manylion yma'n cyfateb, ac ar ôl llenwi'r 'Ffurflen Plentyn wedi'i Ddarganfod' bydd modd aduno'r plentyn â'i riant/rhieni, fodd bynnag mae'n hollbwysig gofyn i'r plentyn a yw'n adnabod yr oedolion.
- Ar ôl aduno'r plentyn gyda'i rieni/gwarcheidwaid, bydd neges radio'n cael ei gylchredeg gan y Garfan Rheoli Achlysuron i'r holl staff, yn rhoi'r newyddion ac yn dweud wrthyn nhw i ailddechrau gweithgareddau arferol ac i atal y chwiliad.
- Os ar ôl 30 munud, neu pan fydd y Garfan Rheoli Achlysuron o'r farn bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i geisio lleoli rhieni/gwarcheidwaid y plentyn ond wedi methu, bydd yr Heddlu'n cael eu hysbysu (h.y. naill ai drwy'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) sydd eisoes ar y safle neu drwy gysylltu â 101) ac yna bydd y plentyn yn cael ei drosglwyddo i'r Heddlu ar gyfer gofal a chymorth proffesiynol (gan nodi'r camau gweithredu ar y Ffurflen Plant Coll a Phlant sydd wedi'u Darganfod).

## ii) Plant Coll

Os ceir adroddiad am blentyn coll, rhaid cadw at y polisi canlynol:

- Dylai'r aelod o staff sydd wedi dod yn gyswllt cyntaf i'r person(au) sy'n adrodd am blentyn coll  geisio tawelu ei feddwl. Bydd yr aelod o staff yn ceisio tawelu eu meddwl y bydd pob ymdrech yn cael eu gwneud i'w hailuno â'u plentyn, gan leihau pryder a straen gormodol (bydd hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd trwy gydol y broses nes dod o hyd i'r plentyn).
- Yr aelod o staff i hysbysu'r Garfan Rheoli Achlysuron dros y radio – h.y "*Enw aelod o staff*....... i Garfan Rheoli Achlysuron". Ar ôl cael ei gydnabod gan aelod o'r Garfan bydd yr aelod o staff yn dweud "Hoffwn roi gwybod am blentyn coll yn ardal ..........."
- Y Garfan Rheoli Achlysuron i drosglwyddo'r neges yma i aelod o'r Garfan, a fydd wedyn yn symud ymlaen i leoliad y rhieni/gwarcheidwad. Dylai'r aelod o staff a gysylltodd â'r person(au) sy'n rhoi gwybod am y plentyn coll i ddechrau aros gyda nhw hyd nes y bydd y Garfan Rheoli Achlysuron yn bresennol i gymryd yr awenau ar y digwyddiad.

- Carfan Rheoli Achlysuron i hysbysu staff ger yr holl fannau mynediad/allanfeydd (giatiau) i fod yn wyliadwrus am unrhyw blant unig/mewn trallod sy’n ceisio gadael y parc.
- Y Garfan Rheoli Achlysuron i hebrwng rhieni/gwarcheidwaid i'r babell 'Beth sy 'Mlaen' a chasglu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn perthynas â'r plentyn. Dylai'r wybodaeth yma gael ei chyfleu i'r ddau aelod o'r Garfan Achlysuron sy'n gyfrifol am blant coll er mwyn iddyn nhw allu llenwi'r ffurflen angenrheidiol. Dylai'r wybodaeth gynnwys oedran y plentyn, ei ryw, disgrifiad o'r hyn y mae'n ei wisgo a lleoliad hysbys diwethaf y plentyn.
- Neges radio i bob aelod o staff (Achlysuron a Diogelwch) gan Garfan Rheoli Achlysuron i wirio'r ardal gyfagos am y plentyn. Pob aelod o staff i chwilio yn eu cyffiniau agos a chynnal cyswllt radio gyda chydweithwyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd. Dylid ceisio osgoi defnyddio'r radio i gadw'r tonnau awyr yn glir nes bod y sefyllfa wedi ei datrys.
- Mae'r wybodaeth uchod i'w dosbarthu i unrhyw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n bresennol ar y safle o fewn arena'r achlysur
- Os yw plentyn coll yn cael ei ganfod neu'n mynd at aelod o staff (staff Achlysuron neu staff Diogelwch), dylid hysbysu Carfan Rheoli Achlysuron ar unwaith dros y radio dylid cludo'r plentyn i'r babell 'Beth sy 'Mlaen'.
- Unwaith y bydd yr holl wiriadau ynghylch gwirio fod y plentyn yn adnabod yr oedolion wedi'u cynnal a'u bodloni, mae'r Ffurflen Plentyn Coll yn cael ei llenwi a'i ffeilio'n ffurfiol.
- Ar ôl i'r plentyn gael ei aduno gyda'i rieni/gwarcheidwaid bydd neges radio yn cael ei chylchredeg gan y Garfan Rheoli Achlysuron i bob aelod o staff, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw a dweud wrthyn nhw i roi'r gorau i chwilio ac ailddechrau gweithgareddau arferol.
- Serch hynny, os bydd y plentyn coll yn dal heb ei ddarganfod ar ôl 30 munud mae'n rhaid i Garfan Rheoli Achlysuron gysylltu â’r Heddlu drwy ffonio 999.

# **ATODIAD 6:** Enghraifft o ffurflen plentyn coll

| | |
|---|---|
| Enw'r Achlysur | |
| Dyddiad yr Achlysur | |
| | |
| **Manylion Personol (Plentyn ar goll)** | |
| Enw | |
| Oedran | |
| Rhywedd | |
| Disgrifiad (taldra, lliw gwallt, lliw llygaid, dillad, ac ati) | |
| **Teitl yr Adroddiad**<br>Y lleoliad a welwyd y plentyn ddiwethaf, a oedd y plentyn wedi gofyn i fynd i unrhyw le? Ydy'r plentyn wedi mwynhau atyniad penodol? | |
| | |
| **Manylion y Person sy'n Adrodd am Blentyn Coll** | |
| Enw'r Rhiant/Gwarcheidwad: | |
| Cyfeiriad | |
| Rhif ffôn | |
| Perthynas | |
| Ydy hi'n bosibl bod y plentyn gyda rhywun arall? (Rhowch gylch) | **Ydy (os felly pwy?)**<br><br>**Nac oes** |
| Cam Gweithredu | |
| | |
| **Deilliant** | |
| A gafodd y plentyn ei aduno gyda'i rieni (rhowch gylch)? | **Do**<br><br>**Naddo** |
| Enw'r Aelod Staff | |
| Llofnod y rhiant / gwarcheidwad | |
| Dyddiad ac amser | |

## **ATODIAD 7:** Enghraifft o ffurflen Plentyn sydd wedi'i Ddarganfod

| | |
|---|---|
| Enw'r Achlysur | |
| Dyddiad yr Achlysur | |
| | |
| **Manylion Personol (Plentyn wedi'i ddarganfod)** | |
| Enw | |
| Oedran | |
| Rhywedd | |
| Disgrifiad (taldra, lliw gwallt, lliw llygaid, dillad, ac ati) | |
| Cam Gweithredu<br>Disgrifiad o'r oedolion.<br>Oes unrhyw blant eraill gyda nhw?<br>Ble welon nhw'r oedolion diwethaf?<br>Beth maen nhw wedi ei fwynhau fwyaf (efallai bod yr oedolion yn yr ardal honno i chwilio amdanyn nhw) | |
| | |
| **Manylion y Person sy'n Casglu'r Plentyn** | |
| Enw'r Rhiant/Gwarcheidwad: | |
| Cyfeiriad | |
| Rhif ffôn | |
| Perthynas | |
| Llofnod | |
| | |
| **Deilliant** | |
| A gafodd y plentyn ei aduno gyda'i rieni (rhowch gylch)? | **Do**<br><br>**Naddo** |
| Enw'r Aelod Staff | |
| Dyddiad ac amser | |

# ATODIAD 8: Ffurflen Asesu Risg Meddygol

## 1. Tabl 1

| MEDICAL RISK ASSESSMENT |
|---|

| | |
|---|---|
| **EVENT** | |
| **DATE** | |

| ITEM | DETAILS | SCORE | |
|---|---|---|---|
| **(A)** | Classical Performance | **2** | |
| **Nature of** | Public Exhibition | **3** | |
| **Event** | Pop / Rock Concert | **5** | |
| | Dance Event | **8** | |
| | Agricultural / Country Show | **2** | |
| | Marine | **3** | |
| | Motorcycle Display | **3** | |
| | Aviation | **3** | |
| | Motor Sport | **4** | |
| | State Occasions | **2** | |
| | VIP Visit / Summit | **3** | |
| | Music Festival | **3** | |
| | Bonfire / Pyrotechnic Display | **4** | |
| | New Year Celebrations | **7** | |
| | **Demonstrations / Marches / Political Events** | | |
| | Low Risk of Disorder | **2** | |
| | Medium Risk of Disorder | **5** | |
| | High Risk of Disorder | **7** | |
| | Opposing Factions Involved | **9** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(B)** | Indoor | **1** | |
| **Venue** | Stadium | **2** | |
| | Outdoor in Confined Location | **2** | |
| | Outdoor Other, e.g., Festival | **3** | |
| | Widespread Public location in Streets | **4** | |
| | Temporary Outdoor Structures | **4** | |
| | Includes Overnight camping | **5** | |
| **(C)** | Seated | **1** | |
| **Standing /** | Mixed | **2** | |
| **Seated** | Standing | **3** | |
| **(D)** | Full Mix in Family Groups | **2** | |
| **Audience** | Full Mix NOT in family Groups | **3** | |
| **Profile** | Predominately Young Adults | **3** | |
| | Predominately Children & Teenagers | **4** | |
| | Predominately Elderly | **4** | |
| | Full Mix - Rival Factions | **5** | |
| | ***Add A + B + C + D*** | ***Score*** | |

## 2. Tabl 2

# MEDICAL RISK ASSESSMENT

| | |
|---|---|
| **EVENT** | |
| **DATE** | |

| ITEM | DETAILS | SCORE | |
|---|---|---|---|
| **(E)** | Good Data, Low Casualty Rate Previously | **-1** | |
| **Past History** | ( Less than 1% ) | | |
| | Good Data, Medium Casualty Rate Previously | **1** | |
| | ( 1% - 2% ) | | |
| | Good Data, High Casualty Rate Previously | **2** | |
| | ( More Than 2% ) | | |
| | First Event - No Data | **3** | |
| | | | |
| **(F)** | <1000 | **1** | |
| **Expected** | <3000 | **2** | |
| **Numbers** | <5000 | **8** | |
| | <10000 | **12** | |
| | <20000 | **16** | |
| | <30000 | **20** | |
| | <40000 | **24** | |
| | <60000 | **28** | |
| | <80000 | **34** | |
| | <100000 | **42** | |
| | <200000 | **50** | |
| | <300000 | **58** | |
| | ***Add E + F*** | ***Score*** | |

## 3. Tabl 3

### 3. Table 3

| Score | Ambulance | First Aider | Ambulance Personnel | Doctor | Nurse | NHS Ambulance Manager | Support Unit |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| <20 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 21-25 | 1 | 6 | 2 | 0 | 0 | Visit | 0 |
| 26-30 | 1 | 8 | 2 | 0 | 0 | Visit | 0 |
| 31-35 | 2 | 12 | 8 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| 36-40 | 3 | 20 | 10 | 2 | 4 | 1 | 0 |
| 41-50 | 4 | 40 | 12 | 3 | 6 | 2 | 1 |
| 51-60 | 4 | 60 | 12 | 4 | 8 | 2 | 1 |
| 61-65 | 5 | 80 | 14 | 5 | 10 | 3 | 1 |
| 66-70 | 6 | 100 | 16 | 6 | 12 | 4 | 2 |
| 71-75 | 10 | 150 | 24 | 9 | 18 | 6 | 3 |
| >75 | 15+ | 200+ | 35+ | 12+ | 24+ | 8+ | 3 |

### 4. Table 4

Add the Total Scores for Tables 1 + 2 + 3 = Table 4

<u>Suggested Resource Requirement</u>

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

# **ATODIAD 9:** Enghraifft o Lythyr i Stondinwyr

Annwyl Arddangoswyr,

**Ffair Fwyd Pontypandy 2019**

Mae'r e-bost yma'n cadarnhau y byddwch chi'n cymryd rhan yn Ffair Fwyd Pontypandy ar Faes Pentref Pontypandy, ar **Ddydd Sadwrn 3 Mai 2019**.
Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlygu manylion pwysig am yr achlysur ac yn dangos eich cyfrifoldebau chi pan rydych chi'n cymryd rhan yn yr achlysur.

**Paratoi ac Ymadael:**

Bydd yr achlysur ar agor i'r cyhoedd rhwng 11:00 a 17:00 ar y ddau ddiwrnod er y bydd y parc ar agor i'r cyhoedd rhwng 08:30 a 20:45 o'r gloch. Bydd gan y stondinwyr fynediad i safle'r achlysur ar: Nos Wener 3 Awst 16:00 - 19:00 (Fydd dim modd i stondinwyr fynd i mewn i'r parc ar ôl 19:00)
Dydd Sadwrn 3 Mai 08:00 – 10:15

Rhaid ichi fod yn barod ar gyfer arolygiad safle erbyn 10:30. Mae angen i gerbydau fod wedi eu parcio neu fod wedi gadael y safle erbyn 10:15. Bydd dadansoddiad yn cael ei gynnal o tua 17:00 ar brynhawn dydd Sadwrn 3 Mai yn dilyn yr achlysur, ac mae'n bwysig eich bod chi fel stondinwyr yn aros ar ei gyfer. Ni chaniateir cerbydau ar y safle tan tua 17:30 o'r gloch neu tan mae'r Garfan Rheoli Achlysuron wedi ystyried ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny. Bydd methu â chadw at hyn yn arwain at eich gwahardd rhag cymryd rhan mewn rhagor o achlysuron ym Mhontypandy.

**Gwybodaeth bwysig:**

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, rhaid i **BOB** stondinwr ddilyn y rheolau canlynol. **Gall methu â gwneud hynny arwain at gael eich gwahardd rhag cymryd rhan yn yr achlysur**:

- Gofynnir i bob stondinwr sydd am gael mynediad i'w cerbydau i safle'r achlysur er mwyn gosod eu stondin i gyrraedd Maes Pentref Pontypandy trwy'r brif fynedfa (Stryd Fawr). Yma byddwch chi'n cael eich cyfarch gan aelod o'r adran ddiogelwch a fydd yn rheoli llif y traffig ac yn cynnal cofrestr o'r sawl sydd yn dod i mewn ac yn gadael y Parc.
- Bydd lle parcio ar gael ar y ddau ddiwrnod yn ôl yr angen ar gyfer cerbydau stondinwyr ym Maes Parcio Neuadd y Pentref a amlygir ar y map atodedig am gyfnod yr achlysur. Bydd trefniadau i ddiogelu'r safle dros nos Wener a nos Sadwrn os ydych chi'n dymuno gadael eitemau ar eich stondin dros nos. Wrth fynd i mewn i'r safle byddwch chi'n cael 'Tocyn Cerbyd Ffair Fwyd Pontypandy'. Rhaid i chi arddangos y tocyn yma yn eich cerbyd (i'w weld yn glir) bob amser er mwyn eich galluogi chi i gael mynediad i Faes y Pentref i'w ddadlwytho, i barcio ym Maes Parcio Neuadd y Pentref. Os dydych chi ddim yn arddangos y tocyn yma, bydd Swyddog Diogelwch yn eich hebrwng chi oddi ar y safle. Gofalwch eich bod chi'n llenwi'r holl fanylion gofynnol sydd ar y tocyn, rhag ofn bod angen inni gysylltu â chi. Fel arall, mae meysydd parcio canol tref y Cyngor yn agos iawn at Faes Pentref Pontypandy. Mae'r rhain yn codi £1 yn unig am barcio trwy'r dydd ar ddydd Sadwrn ac maen nhw'n rhad ac am ddim ar y Sul.

- Wrth fynd i mewn i safle'r achlysur rhaid i chi dalu sylw i'r rheolau traffig a chadw atyn nhw - bydd system unffordd yn ei lle a rhaid cadw at derfyn cyflymder o 5mya, rhaid defnyddio goleuadau rhybuddio bob amser a rhaid i 'fancmon' fod yn bresennol os bydd angen i chi symud eich cerbyd am yn ôl.

- Dylech chi, fel stondinwr, gymeradwyo cynlluniau a gwaith adeiladu Strwythurau Dros Dro megis pebyll mawr ac atyniadau rydych chi am eu hadeiladu / dod i mewn i'r safle i sicrhau eu bod nhw'n addas i'r diben. Bydd angen tystysgrif wedi'i llofnodi a'i dyddio yn dilyn y broses adeiladu, a bydd angen rhoi hon i aelod o'r Garfan Rheoli'r Achlysur. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r dystysgrif hon i'r personél perthnasol ar ôl cwblhau'r strwythur. Gall tystysgrif templed gael ei chyflenwi os oes angen - cysylltwch ag aelod o'r Garfan Rheoli'r Achlysur.

- **Mae'r holl ddogfennaeth berthnasol**, gan gynnwys Asesiadau Risg / Asesiadau Risg Tân / Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus / ADIPS / PIPA, i'w hanfon yn electronig at y Garfan Rheoli'r achlysur - gweler eu manylion isod. Sylwch, nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr, a dylai'r holl ddogfennau (gan gynnwys unrhyw ddeunydd arall sy'n berthnasol i lefel eich darpariaeth) gael eu darparu erbyn dydd **Llun 3 Ebrill 2019** os nad ydych eisoes wedi'u darparu.

**Nodwch** – bydd angen i bob gwerthwr arlwyo sicrhau bod ganddo'r offer diffodd tân perthnasol, fel y nodir yn eu Hasesiadau Risg. Dylid gwirio'r cyfarpar yma ymlaen llaw, er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel. Efallai bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth bod eich cyfarpar chi'n ddiogel yn ystod archwiliadau ad hoc gan y Garfan Rheoli Achlysuron yn ystod yr achlysur. Sicrhewch fod gennych chi eich system Diogelwch Bwyd (e.e. HACCP, SFBB) ar gael i'w harchwilio ar y ddau ddiwrnod.

**Ewch yn wyrdd -**
Mewn ymgais i helpu i leihau'r broblem gynyddol o blastig untro, byddwn ni'n cyfyngu ar faint o blastigau does dim modd eu hailgylchu megis gwellt a ffyrc sy'n cael eu defnyddio yn yr achlysur yma.

Gofynnwn i chi edrych i ddefnyddio opsiynau eraill fel gwellt papur, ffyrc / llwyau pren, hambyrddau bwyd papur, cwpanau ailgylchadwy ac ati. I'ch cefnogi chi i'n helpu ni i wneud hyn, byddwn ni'n darparu ffyrc pren a gwellt papur i'r stondinwyr hynny sy'n cyflenwi bwyd.

## Symudiadau cerbydau

**Fydd dim hawl gyrru cerbydau yn y parc ar ôl 10:15, a rhaid symud cerbydau sydd ddim yn rhan o'r achlysur oddi ar y safle neu eu parcio ym Maes Parcio Neuadd y Pentref erbyn yr amser yma. Bydd hawl symud cerbydau o tua 17:30 o'r gloch bob dydd, ar ôl i'r sioe ddod i ben yn dilyn awdurdodiad gan y Garfan Rheoli Achlysuron.**

**Rheoli Gwastraff**

Eleni byddwn ni'n darparu bagiau ailgylchu i bob stondinwr, ac yn gofyn iddyn nhw ailgylchu cymaint o gynhyrchion ailgylchadwy â phosibl. Dydy gwaith Biogen y Cyngor ddim yn derbyn gwastraff ailgylchu halogedig ac mae cost fawr yn cael ei achosi os canfyddir bod hyn yn digwydd. Felly, bydd stondinwyr yn cael dirwy os fydden nhw ddim yn ailgylchu eu gwastraff yn y ffordd gywir, gan ddefnyddio'r biniau a ddarperir, ac felly rydyn ni'n eich annog i wahanu unrhyw wastraff oddi wrth yr holl ddeunydd pacio gan sicrhau bod deunydd ddim yn cael ei halogi.

Rydyn ni hefyd yn darparu sgip ailgylchu cardbord a sgip gwastraff cyffredinol felly does dim angen mynd â'ch gwastraff adref; gofynnwn i chi fynd ag ef i'r sgip perthnasol a ddarperir ar y safle yn ystod neu ar ddiwedd yr achlysur.

**Ffotograffiaeth**

Er mwyn hyrwyddo'r achlysur yn y dyfodol, bydd ffotograffydd ar y safle yn tynnu ffotograffau. Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae angen caniatâd gan bawb y byddwn ni'n tynnu llun ohonyn nhw, er mwyn prosesu (dal a defnyddio) y delweddau yn deg ac yn gyfreithlon. Os dydych chi ddim yn hapus i rai o'r lluniau yma gael eu defnyddio mewn deunydd hyrwyddol yn y dyfodol, rhowch wybod i'r ffotograffydd swyddogol ar y safle.

Pe hoffech chi ragor o fanylion neu godi cwestiwn, croeso i chi gysylltu â'r Garfan Rheoli Achlysuron ar 0111 111111 neu anfonwch e-bost at achlysuron@pontypandy.co.uk

Yn gywir
Carfan Rheoli Achlysuron Pontypandy

# ATODIAD 10: Enghraifft o Lythyr i Gontractwr

Annwyl Gontractwr,

**Ffair Fwyd Pontypandy 2019**

Mae'r e-bost yma'n cadarnhau y byddwch chi'n cymryd rhan yn Ffair Fwyd Pontypandy ar Faes Pentref Pontypandy, ar **Ddydd Sadwrn 3 Mai 2019**. Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlygu manylion pwysig am yr achlysur ac yn dangos eich cyfrifoldebau chi pan rydych chi'n cymryd rhan yn yr achlysur.

**Paratoi ac Ymadael:**

Cynhelir yr achlysur rhwng 11:00 a 17:00 o'r gloch a bydd Maes y Pentref ar agor i'r cyhoedd rhwng 08:30 a 20:45.

Bydd slotiau a drefnir ymlaen llaw yn cael eu cytuno gennych chi, y Contractwr, a'r Garfan Rheoli Achlysuron ar gyfer paratoi, ar (

Dilëwch yn dibynnu ar y contractwr unigol)

Dydd Gwener 2 Mai rhwng 09:00 a 19:00

Dydd Sadwrn 3 Mai rhwng 08:00 a 10:15

Gofalwch eich bod chi'n caniatáu digon o amser i baratoi a gadael y safle o fewn y paramedrau yma. Oni bai bod y Garfan Rheoli Achlysuron wedi gwneud trefniadau ymlaen llaw, bydd dadansoddiad yn dilyn yr achlysur yn cael ei gynnal o 17:30 o'r gloch tan 20:00. Ni chaniateir i unrhyw Gontractwr dynnu i lawr yn gynt oni bai bod aelod o'r Garfan Rheoli Achlysuron wedi'i awdurdodi i wneud hynny.

Bydd dadansoddiad ychwanegol yn ailddechrau ddydd Sul 4 Mai 09:00 - 17:00

**Gwybodaeth Bwysig**

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, rhaid i **BOB** stondinwr ddilyn y rheolau canlynol. Contractwyr **Gall methu â gwneud hynny arwain at gael eich gwahardd rhag cymryd rhan yn yr achlysur**:

- Gofynnir i bob contractwr sydd am gael mynediad i'w cerbydau i safle'r achlysur er mwyn gwneud gwaith gosod i gyrraedd Maes Pentref Pontypandy trwy'r brif fynedfa ar y Stryd Fawr. Bydd contractwyr yn cael eu cyfarch gan aelod o staff Diogelwch a fydd yn rheoli llif y traffig ac a fydd yn gwneud cofrestr o'r rhai sy'n symud i mewn ac allan o Faes y Pentref. Bydd lleoedd parcio i gontractwyr ar gael drwy gydol yr achlysur ym Maes Parcio Neuadd y Pentref (fel yr amlygir ar y map atodedig). **Byddwch chi'n cael trwydded cerbyd wrth ddod i mewn i'r parc, llenwch hyn i mewn a'i arddangos yn eich cerbyd bob amser.**

- Wrth fynd i mewn i safle'r achlysur rhaid i chi dalu sylw i'r rheolau traffig a chadw atyn nhw - bydd system unffordd yn ei lle a rhaid cadw at derfyn cyflymder o 5mya, rhaid defnyddio goleuadau rhybuddio bob amser a rhaid i 'fancmon' fod yn bresennol os bydd angen i chi symud eich cerbyd am yn ôl.
- Rhaid i chithau, y Contractwr, greu parth diogel cyn dechrau ar unrhyw waith adeiladu (neu ddymchwel). Mae Maes y Pentref Pontypandy yn ardal gyhoeddus a bydd aelodau'r cyhoedd ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu a dymchwel, a rhaid gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch. Os oes angen cymorth i greu parth diogel, rhowch wybod i'r Garfan Rheoli Achlysuron ymlaen llaw gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Yn ogystal, ni fydd unrhyw waith adeiladu na dymchwel yn digwydd ar y safle oni bai bod aelod o'r Garfan Rheoli Achlysuron ar y safle bryd hynny - eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod hyn yn digwydd.
- Gwaith dylunio ac adeiladu Strwythurau Dros Dro megis llwyfannu, pebyll mawr, ffair hwyl, atyniadau ac ati sy'n cael eu llogi, i'w cymeradwyo fel rhai addas i'r diben gennych chi, y Contractwr. Bydd angen tystysgrif wedi'i llofnodi a'i dyddio yn dilyn y broses adeiladu, a bydd angen ei rhoi i aelod o'r Garfan Rheoli Achlysuron. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r dystysgrif hon i'r personél perthnasol ar ôl cwblhau'r strwythur. Mae modd i ni ddarparu tystysgrif templed i chi os oes angen - cysylltwch ag aelod o'r Garfan Rheoli Achlysuron.
- **Rhaid anfon yr holl ddogfennau perthnasol**, gan gynnwys Asesiadau Risg / Asesiadau Risg Tân / Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus / ADIPS / PIPA, yn electronig i'r Garfan Rheoli Achlysuron gan ddefnyddio'r manylion isod. Sylwch, dydy'r rhestr uchod ddim yn hollgynhwysfawr, a dylai'r holl ddogfennau (gan gynnwys unrhyw ddeunydd arall sy'n berthnasol i lefel eich darpariaeth) gael ei ddarparu erbyn **Dydd Llun 3 Ebrill 2019.**

**<u>Symudiadau cerbydau:</u>**

**Does dim hawl gan gerbydau i symud ar Faes y Pentref ar ôl 10.15am. Rhaid symud unrhyw gerbyd sydd ddim yn rhan o'r achlysur oddi ar y safle cyn hynny. Bydd modd i chi symud cerbydau ar y safle ar ôl i'r achlysur ddod i ben. Bydd hyn yn digwydd am tua 17:30, ar ôl i'r Garfan Rheoli Achlysuron gadarnhau ei bod hi'n ddiogel.**

Pe hoffech chi ragor o fanylion neu godi cwestiwn, croeso i chi gysylltu â'r Garfan Rheoli Achlysuron ar 0111 111111 neu e-bostiwch achlysuron@pontypandy.co.uk

Yn gywir
Carfan Rheoli Achlysuron

# ATODIAD 11:

## Da Byw (Gwartheg, Defaid, Moch, Geifr a Cheirw) mewn Achlysuron

Mae'r Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid yn berthnasol i achlysuron lle mae da byw a ddisgrifir uchod yn bresennol mewn achlysur o fwy nag un safle amaethyddol. Mae'n nodi'r risg bosibl o ledaenu clefydau hysbysadwy rhwng anifeiliaid sy'n agored i niwed mewn achlysuron o'r fath.

Mewn achosion fel hyn, rhaid paratoi Cynllun Trwydded a Chynllun Rheoli Clefydau a'u cyflwyno i APHA (yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion).

Ar ôl eu cyflwyno, cynhelir ymweliad safle gan swyddog milfeddygol APHA a Swyddog Iechyd Anifeiliaid yr awdurdod lleol er mwyn asesu'r gweithdrefnau.
**AGO4-Disease Management Plan.pdf**
**AGO-Reconfirmation.pdf** **AGO3 Licence Plan.pdf**

**Adrodd am Symud Da Byw**

Dylai ceidwad yr anifeiliaid roi gwybod am symudiadau da byw, i'r achlysur ac oddi yno, gan ddefnyddio'r sianeli priodol at ddibenion rheoli clefydau. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i drefnydd yr achysur gael Rhif Daliad (CPH) i'w nodi fel daliad amaethyddol, p'un a yw'r achlysur yn un dros dro ai peidio. Mae modd cael hyn drwy gysylltu â'r APHA ar 0300 303 8268, ond dylid ei roi ar waith o leiaf 6 wythnos cyn yr achlysur, er mwyn caniatáu digon o amser i'r CPH gael ei brosesu.

Mewn achosion lle mae'r da byw yn dod o un safle, ni fyddai'r achlysur yn cael ei ddosbarthu fel crynhoad anifeiliaid ac efallai fydd y trefnydd ddim angen rhif CPH ar gyfer yr achlysur.

Serch hynny, byddai'n rhaid i berchennog y da byw wneud cais am drwydded yn ymwneud â symud gwartheg, defaid, moch neu eifr dros dro at ddibenion perfformiad i fangre sydd heb rif CPH. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag APHA ar 0300 303 8268.

**Crynoadau o Adar**

Bernir bod crynhoad o adar wedi digwydd lle deuir ag adar o ddau neu ragor o ddaliadau i achlysur. Mewn achosion o'r fath dylai trefnwyr achlysuron gysylltu ag APHA ar 0300 303 8268 i'w hysbysu o'u bwriad o leiaf 7 diwrnod cyn cynnal yr achlysur.

bird-gatherings-general-licence.pdf

# ATODIAD 12:

## Cynllunio Achlysuron ac Ystyriaethau Gwrthderfysgol




Annwyl Drefnydd yr Achlysur,

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf, Heddlu De Cymru ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru yn cydweithio i roi cyngor a chymorth i drefnwyr achlysuron ar sut i liniaru bygythiad terfysgaeth wrth gynllunio achlysur yn ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae bygythiad terfysgaeth yn real ac yn gynyddol anrhagweladwy, gyda mannau cyhoeddus ac ardaloedd prysur yn dargedau deniadol i derfysgwyr.

Mae modd i lefelau bygythiad Cenedlaethol gan derfysgaeth yn y DU newid ar fyr rybudd. Rydyn ni'n argymell bod trefnwyr achlysuron yn gwirio'r lefel bygythiad cenedlaethol presennol yn ystod y cyfnod cynllunio ac yn ystod yr achlysur. (Ewch i (www.gov.uk) i gael yr wybodaeth ddiweddaraf).

**Lefelau bygythiad**

Mae pum lefel o fygythiad:
- **Isel** - mae ymosodiad yn annhebygol iawn
- **Cymedrol** - mae ymosodiad yn bosibl ond nid yn debygol
- **Sylweddol** - mae ymosodiad yn debygol
- **Difrifol** - mae ymosodiad yn debygol iawn
- **Critigol** - mae ymosodiad yn debygol iawn yn y dyfodol agos

Hoffen ni i chi ystyried beth y gallwch 'chi' ei wneud i leihau eich risg a lliniaru effaith ymosodiad o'r fath. Gall cael cynllunio effeithiol ar waith leihau'r tebygolrwydd o ymosodiad yn fawr.

Efallai eich bod chi'n gyfarwydd â llunio cynllun ar gyfer eich achlysur a byddwch chi'n gwybod sut i fynd i'r afael â llawer o'r gofynion ynghylch diogelwch, ond efallai fyddwch chi ddim mor gyfarwydd â materion diogelwch a therfysgaeth yn benodol. Dyma rai o'r pethau yr hoffen ni i chi eu hystyried wrth roi eich cynllun at ei gilydd. Dydy hon ddim yn rhestr gyflawn ac ar ddiwedd y ddogfen rydyn ni'n eich cyfeirio at wefannau lle mae modd cael rhagor o wybodaeth.

**Cynllunio Diogelwch**

Rydyn ni yn eich annog i gynhyrchu Cynllun Diogelwch ar gyfer eich achlysur sy'n mynd i'r afael â'r bygythiad o derfysgaeth a ddylai ystyried methodolegau ymosod a'ch gwendidau. Dylech chi gynnwys y materion allweddol canlynol:

1. Cyn yr achlysur, ystyriwch sut y byddwch chi'n ei hysbysebu, byddwch yn ofalus i beidio â rhannu gormod o wybodaeth a allai gynorthwyo terfysgwr i gynllunio ymosodiad. Ystyriwch beth mae modd ei gynnwys i atal hyn. Rydyn ni'n galw hyn yn gyfathrebiadau ataliaeth (mynd i Communication - GOV.UK (www.gov.uk))

2. Edrychwch ar eich safle, gan ddechrau o'r dynesiad, y perimedr i'r tu mewn lle mae'r achlysur yn cael ei gynnal. Beth yw'r risgiau a beth allwch chi ei wneud i'w lliniaru?

3. Mae cyfathrebu yn allweddol i reoli achlysur. Ydy eich cyfathrebiadau yn 'addas ar gyfer y diben? Mae hyn yn ymwneud â sut rydych chi'n cyfathrebu â'ch staff a'r cyhoedd.

4. Hyfforddiant i staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Mae hyfforddiant E-Ddysgu Ymwybyddiaeth ACT ardderchog ar-lein rhad ac am ddim i godi ymwybyddiaeth ac i rymuso eich staff. I gofrestru ar gyfer hyfforddiant ar-lein ewch i: https://ct.highfieldelearning.com

Mae Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Achlysuron Rhondda Cynon Taf yn argymell yn gryf eich bod chi'n cynllunio ar gyfer digwyddiad terfysgol ac efallai y bydd yn gofyn i chi am fanylion eich Cynllun Diogelwch Achlysur wrth ystyried eich cais.

Isod mae'r gwefannau lle mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth i liniaru ymosodiad terfysgol a'ch helpu i ddatblygu eich Cynllun Diogelwch Achlysur.

www.nactso.gov.uk (Gweler Y CANLLAWIAU LLEFYDD PRYSUR (CROWDED PLACES GUIDANCE) i'ch helpu chi i lywio a datblygu eich Cynllun Diogelwch Achlysur. Mae'r wefan yma hefyd yn cynnwys canllawiau cenedlaethol eraill a manylion am gynhyrchion pwysig sy'n rhad ac am ddim).

www.cpni.gov.uk – Cyngor pellach ar fesurau diogelwch amddiffynnol.

Wales Extremism & Counter Terrorism Unit
Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru

# ATODIAD 13:
## Polisi Gwrthderfysgaeth a Llogi Lleoliad

**Polisi Archebu Lleoliad yr Awdurdod Lleol**

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth, (a.29, a. E para 45 Canllawiau i Awdurdodau Lleol), mae'r Awdurdod yn dal cyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau bod canllawiau clir ar waith ar gyfer nodi defnydd addas ar gyfer defnyddio eiddo'r Cyngor.

Mae'r Awdurdod yma wedi ymrwymo i greu cymuned sy'n ddiogel a chynhwysol, lle mae cyfleusterau, gweithgareddau ac achlysuron ar gael i grwpiau amrywiol o bobl, ble mae gyda nhw fynediad at gyfleoedd bywyd a lle mae sefydliadau lleol yn gweithredu'n deg.

I'r perwyl yma, fydd unigolion na grwpiau ddim yn cael eu gwrthod rhag cael mynediad at eiddo a reolir gan yr awdurdod lleol, oni bai bod rheswm cyfiawnadwy dros wneud hynny o fewn cwmpas y Polisi yma.

**<u>Defnydd a phwrpas</u>**

Fel egwyddor gyffredinol, fydd yr Awdurdod Lleol yma ddim yn rhoi caniatâd i'w eiddo gael ei ddefnyddio ar gyfer:

- Ralïau neu wrthdystiadau gwleidyddol (ac eithrio pob gweithgaredd etholiadol Lleol, Cynulliad Cenedlaethol, Seneddol ac Ewropeaidd, fel sydd wedi'i nodi yn a.95 a a.96 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i diwygiwyd)
- Unrhyw bwrpas sy'n anghyfreithlon, e.e. sydd wedi'i wahardd o dan y gyfraith neu heb ei awdurdodi gan reolau swyddogol neu rai sydd heb gael eu cytuno arnyn nhw
- Gweithgareddau neu achlysuron a allai achosi aflonyddwch sifil neu raniad yn y gymuned
- Unrhyw bwrpas gan unigolyn neu sefydliad sydd wedi'i wahardd gan y gyfraith.

Mae’r awdurdod hefyd yn cadw’r hawl i wrthod neu ganslo unrhyw archeb lle mae’n ystyried bod:

- Achlysuron o'r fath yn gyferbyniol i ddiddordeb y cyhoedd neu'n gyferbyniol i unrhyw gyfraith neu Ddeddf Seneddol.  Gall archebion hefyd fod yn amodol ar ystyriaeth gan yr Heddlu i sicrhau bod diogelwch y gymuned yn cael ei asesu yn erbyn cais i archebu lleoliad.
- Defnyddwyr y safle/eiddo yn debygol o gyflawni gweithred a allai beri risg o ddifrod, colled, cost sylweddol, neu risg neu niwed i enw da'r Awdurdod.

**Canllawiau Gweithdrefnol**

Rheoli archebu lleoliadau

Mae'n bosibl y bydd y rhan fwyaf o geisiadau am logi lleoliad yn dod oddi wrth fusnesau, sefydliadau neu drigolion lleol, a all fod yn hysbys i staff ac sydd wedi defnyddio adeiladau'r awdurdod o'r blaen neu'n rheolaidd, heb unrhyw ddigwyddiadau niweidiol. Yn yr achos yna, bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yng ngham un yn ddigon.
Os ceir cais gan gleient newydd neu gan fusnes neu sefydliad newydd, dylai'r cwestiynau eilaidd yng ngham dau gael eu defnyddio.
Cam Un
Manylion cychwynnol

1. Manylion y trefnydd (enw, cyfeiriad, rhif cyswllt – cartref, busnes a ffôn symudol).
2. Manylion y lleoliad y gofynnwyd amdano, amser, dyddiad a hyd yr achlysur?
3. Manylion am bwrpas yr achlysur a pha fath o achlysur y maen nhw'n dymuno ei gynnal?
4. Gofyn am amcangyfrifiad o'r nifer o bobl a fydd yn bresennol?

Cam Dau
Cwestiynau eilaidd Bydd y cwestiynau canlynol yn helpu staff i bennu p'un a oes modd ystyried yr archeb yn un ddadleuol a ph'un a oes angen gwneud ymchwil pellach:

1. Dydy'r trefnydd ddim yn breswylydd lleol, canfod pam mae'r unigolyn eisiau cynnal yr achlysur yn yr ardal
2. Darganfod a yw'r achlysur yn gysylltiedig ag unrhyw gymuned, grŵp neu sefydliad crefyddol neu wleidyddol. Os felly, gofynnwch a ydyn nhw'n rhoi polisi sy'n annog cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ac yn herio pob math o wahaniaethu? Os nad dyna'r achos, a fyddan nhw'n cytuno i gefnogi Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod?
3. Gofynnwch sut y bydd mynediad i'r achlysur yn cael ei reoli (mynediad agored, gwahoddiad personol, gwahoddiad ar gyfryngau cymdeithasol neu docyn)?
4. Gofynnwch am gopi o'r rhaglen ac enwau unrhyw siaradwyr neu berfformwyr.
5. Holwch a yw'r trefnydd neu'r sefydliad wedi defnyddio lleoliadau eraill yn y wlad. Os ydyn nhw wedi, gofynnwch am fanylion er mwyn cysylltu â'r lleoliadau blaenorol.

Cam Tri

Os oes gyda chi unrhyw bryderon am atebion y cwsmer, mynnwch air â'ch rheolwr.

Os oes angen, mae modd croesgyfeirio'r archeb i'r dolenni gwe a'r cysylltiadau canlynol

- https://www.gov.uk/government/publications/proscribed-terror-groups-or-organisations--2 (dolen sy'n rhoi gwybod am grwpiau terfysgol hysbys yn y DU ac Iwerddon)
- Cydlynydd Atal Lleol (Gary Black – gary.black@rctcbc.gov.uk )
- Ystyriwch ddefnyddio gwiriad ffynhonnell agored.

Wrth ddelio gyda'r broses casglu gwybodaeth, mae'n bwysig ystyried yr holl bosibiliadau ar gyfer casglu data gan y byddan nhw'n effeithio ar ansawdd y data a gaiff eu casglu.

Os dydy hyn ddim yn cael ei wneud yn gywir, mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar y broses gwneud penderfyniadau ac mae'n annhebygol y bydd penderfyniad gwybodus yn cael ei wneud.